

ECO'r Wyddfa

Rhif: 443

Mai 2016

Pris: 70c



Rasio yn Silverstone: Falcon Force yn hedfan yn uchel

Dyna fu hanes chwech o enethod o Flwyddyn 9 yn Ysgol Brynrefail yn dilyn llwyddiant cynharach yn Llandudno, a gwaith caled yn ystod y ddau dymor ysgol diwethaf. Yn dilyn cystadleuaeth yn yr ysgol yn ystod tymor y gaeaf, dewiswyd Eleanor Edwards-Jones, Beca Jones, Jessica Pritchard, Tesni Smith, Anna W. Thomas ac Elin Worth i gynllunio a dylunio model o gar rasio yng nghystadleuaeth “F1 in schools”, rhan o'r “Formula Technology Challenge” sy'n agored i ddisgyblion ysgol a cholegau led-led Prydain. Mae gwahanol lefelau i'r gystadleuaeth, ac yr oedd y genod yn cystadlu fel dechreuwyr. Penderfynwyd mai Falcon Force fyddai enw'r tim.

Ond nid cynllunio'r car oedd unig ran y gystadleuaeth. Roedd angen ei adeiladu, dangos y gwaith ymchwil angenrheidiol, y sustem gynllunio, chwilio am noddwyr ariannol a dulliau marchnata. Yn ogystal, roedd angen paratoi cyflwyniad powerpoint a chyflwyno portffolio peirianyddol yn trafod ffurf, siap, pwysau, hyd a lled y car, a phroffion aero-deinameg. Ac i goroni'r cyfan roedd angen iddynt roi cyflwyniad llafar i'r beirniaid ar eu rhan unigol yn y cyfanwaith.

Bu'r genod yn gweithio dan gyfarwyddid Mr Paul Griffiths eu hathro Dylunio a Thechnoleg, ond roedd yr holl waith yn cael ei wneud yn ystod oriau cinio tra'n yr ysgol.

Wedi'r broses gynllunio, anfonwyd y cynlluniau i'r Brifysgol ym Mangor i gael mowldio a thorri'r darnau angenrheidiol, cyn eu gosod gyda'i gilydd yn yr ysgol a'u peintio cyn gosod logo'r gystadleuaeth ar y car. Silindr nwy oedd yn ei yrru, a'r bwriad oedd

cynllunio car fyddai'n teithio gyflymaf dros bellter penodedig.

Yn Llandudno daeth tim Falcon Force yn gyntaf mewn dau categori. Eu car hwy oedd y cyflymaf yn y gystadleuaeth, a nhw hefyd enillodd y categori peirianyddol. Gyda pherfformiadau da yn y categoriau eraill hefyd, enillwyd y tlws am y tim dechreuwyr gorau yn y gystadleuaeth – a'r hawl i gystadlu yn Silverstone o fewn wythnos.

Taith llawn cyffro am Lundain felly, a chyfarfod enillwyr rhanbarthol eraill. Cael cyfle hefyd i weld ceir rasio enwog, taith o amgylch y trac rasio, a sgwrsio gyda rhai o brif beirianwyr y byd Formula 1. Roedd Susannah Tennent, un o brif beirianwyr F1, a diddordeb arbennig ganddi mewn tim o enethod: yr unig dim o enethod yn Llandudno, a'r unig dim o enethod i frwydro trwodd i'r rownd derfynol. Tipyn o gamp! Bu'r genod hefyd yn sgwrsio gyda prif beiriannydd rasio Tim Red Bull.

Cwmnïau lleol fu'n noddî'r genod, a nhw fu'n gyfrifol am ariannu y costau teithio a thalu am ddillad arbennig. Roeddent yn naturiol yn cael cryn sylw yn ymgyrch farchnata'r tim.

Daeth tim Falcon Force yn agos i'r brig yn Llundain hefyd, gan ddod yn seithfed car cyflymaf (ond byddai eu hamser yn Llandudno wedi ennill y gystadleuaeth iddynt). Enillwyd gwobr gyntaf am waith ymchwil, ac unwaith yn rhagor enillwyd y wobwr gyntaf yn y categori peirianeg. Roeddent hefyd ymhlith y tri gorau yng nghategori noddwyr. Ac er nad oedd gwobr tim gorau'r gystadleuaeth y tro hwn, gallant gysuro eu hunain mai nhw oedd y tim genod gorau yn Silverstone.

ECO'r Wyddfa

RHIF 443
Mai 2016
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH

GOLYGYDD CHWARAEON
 Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
 Gwynnaf Hughes, Hafan,
 Llanrug (672221)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
 Rhian Elin George, Swn yr Egan,
 Brynrefail (01286) 872306
 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
 Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
 Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
 Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL:

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
 Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
 Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
 rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
 Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
 Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
 56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
 Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid **76**
 dylunio graffeg
 07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Mehefin	Mai 15	Mai 27	Brynrefail
Gorffennaf/Awst	Mehefin 19	Gorffennaf 1	Bethel

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

CILMERI: celwydd?

Cynhelir y nawfed yn ein cyfres o gyfarfodydd 'Ein Gwir Hanes' ddydd Sadwrn Mai 14eg, 10.30-2.30pm yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, LL54 5BT

Y pwnc y tro hwn yw Cilmeri. Mae'n bosib eich bod yn gyfarwydd â hanes lladd ein Llyw olaf yng nghyffiniau Llanelwedd ond, ydych chi erioed wedi cwestiynu'r amgylchiadau hynod?

Bydd Ieuan Wyn a Geraint Jones yn edrych o'r newydd ar ddigwyddiadau tyngedfennol 1282, ac yn gofyn ai celwydd bwriadol yw'r hanes a drosglwyddwyd inni. Beth yw'r gwirionedd? Pam y'i llurguniwyd? Beth oedd yna i'w gelu a'i guddio?

Mae'n stori o bwys, bydd yn ddiwrnod i'w gofio. Dowch i wrando, ac, os mynnwch, i drafod. Croeso cynnes i bawb.

Rhagor o fanylion : 01286 660 546, canolfanuwcgwyrfa@gmail.com

Yn gywir,
 Jina Gwyrfai

Yn ystod y mis aeth heibio

• Datgelodd 'papuraupanama' gymaint o unigolion a sefydliadau sy'n defnyddio dulliau honedig-gyfreithlon i osgoi talu treth incwm. A daliwyd y prif weinidog mewn twll gwleidyddol yn eu sgil; a'i ddatganiadau dyddiol yn sicrhau ei fod yn suddo'n ddyfnach i'r twll hwnnw. Mae'r slogan "we're all in it together" yn ymdebygu i gyfaddefiad erbyn hyn.

• Blwyddyn Antur yw eleni yn ôl Llywodraeth Cymru, a hynny er mwyn denu mwy o dwristiaid. Eisoes datgelwyd mai Blwyddyn y Chwedlau fydd 2017 yn yr ymgyrch farchnata twristiaeth, a bydd sioeau teithiol Croeso Cymru yn rhoi sylw arbennig i'r 'Chwedlau' yn ystod mis Mai. Bydd Croeso Cymru yn ymweld â phedair canolfan yn ystod y mis: Aberystwyth, Caerffili, Llanelli a Bae Colwyn (25 Mai ym Mharc Eirias). Gan mai ar gwrs golff (Caerffili) a dau gae rygbi (Llanelli a Bae Colwyn) y bydd tri o'r cyfarfodydd, tybed pa fath o 'chwedlau' fydd yn cael sylw?

• Mae mwy o bobl gordew yn y byd na phobl sydd â'u pwysau'n normal. Yn ôl ymchwil diweddar a gyhoeddwyd yn y 'Lancet', cyfnodolyn meddygol, bydd 18% o ddynion a 21% o ferched yn or-dew erbyn 2025. Yda chi'n un o'r rheini, neu'n debygol o fod? Ydi'r trowsus yn ffitio – neu yn hytrach, os nad ydi'r trowsus yn ffitio; rwan

ydi'r amser i wneud rhywbeth ynglŷn ag o.

• Mae grŵp sy'n ymgyrchu yn erbyn sefydlu gorsaf drydan yn hen dyllau chwarel Glynrhonwy yn bryderus ynglŷn â'r peryglon amgylcheddol. Ac ymae'r ffaith i'r Weinyddiaeth Amddiffyn wrthod eu cais am fanylion o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi dwysau'r ofnau rheini. Mae'n wybyddus fod 70,000 o fomiau nwy tabon (nwy nerfau) wedi eu cadw dros dro yng Nglynrhonwy yn fuan wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd. Yn ddiweddarach, cawsant eu boddi yn nyfnderoedd Môr Iwerydd. Bu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol am glirio'r holl safle yn y cyfnod hyd y 1970'au. Ond mae'n ymddangos nad yw'r Weinyddiaeth yn barod i roi sicrwydd pendant fod yr holl eitemau ffrwydrol wedi eu clirio o'r safle. Amser a ddengys sut y bydd yr amheuan hyn a'r diffyg sicrwydd diogelwch yn effeithio ar gais cynllunio'r cwmni sy'n bwriadu cynhyrchu trydan yma.

• Mae Sion a Sian, yn goch a gwyrd, yn amlwg iawn mewn ffenestri tai, mewn gerddi ac ar waliau caeau y fro. A does dim son – eto – am yr ymgeiswyr eraill. Dau yn unig sydd yn y ras? Ac os felly, fel yn hanes yr hen declyn-bach-dweud-tywydd hwnnw, os bydd un i mewn bydd y llall yn sicr o fod allan.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£22.30 Dienw,
 Stourbridge.

£20: Er cof am Gwyneth Roberts, Sŵn Y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis; Myra Parry, Yr Wyddgrug, er cof am Alan Parry.

£13: Di-enw Llanrug; Eluned Jones, Mochdre, er cof am deulu Rhif 5 a 7 Stryd Siarlot, Llanberis - (cywiro Rhifyn Ebrill).

£10: Mr a Mrs S. Roberts, Dwyrdd, Glanffynnon, Llanrug; Haf Thomas, Buarthau, Llanrug; Aled Jones, 3 Bryn Gof, Caethro; A. Wiliam, Croesoswallt.

£9: Dienw, Llanrug.

£5: Maureen, Stryd Newydd, Deiniolen; Teulu 2 Bro Waun, Waunfawr.

£3: Di-enw Llanrug; H. Evans-Munro, Llanrug.

43 fed
 SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN
 SADWRN 11 MEHEFIN 2016
 Gaeau Rygbi, BETHESDA
Cystadlaethau
Ceffylau / Cwn / Defaid / Dofnodod /
Adran Cartref / Ffyn
Adloniant
Hen Gerbydau / Mablampau
Stondinau
Emlyn 'Display Team'
Rasus 'Terrier a Lurcher gyda Dei Banod
Mynediad
Oedolion £4, Pensiynwyr: £2, Plant £1
Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda
Nia 01248 602448
nia@sioedyffrynogwen.co.uk
www.sioedyffrynogwen.co.uk



Rhedeg o amgylch Ynys Môn | Running around Anglesey

Her Eleni



Ni allai Phil Jones (Waunfawr), Steve Edwards (Llanberis gynt) ac Alan Owen (Y Felinheli) wrthod her. Ar ôl codi £11,000 y llynedd drwy redeg 6 marathon mewn 6 diwrnod, maent wedi

penderfynu rhedeg dros 100 milltir o amgylch Ynys Môn yn ystod yr haf eleni ar gyfer ymgyrch TimIrfon, Awyr Las a Gafael Llaw.

Gwenu pan yn glawio!

YnNi
Padarn
Peris

Diolch o galon i'n holl fuddsoddwyr, mae'r targed buddsoddiadau wedi ei gyrraedd wythnos cyn y dyddiad cau! Mae'n wir ddrwg gennym i'r rhai oedd yn bwriadu buddsoddi yn yr wythnos olaf, ond fedrwn ni ddim derbyn eich arian. Da ni'n gwybod fod yna lawer yn siomedig o fethu cyfrannu yn y fenter gyffrous hon.

Bydd yr adeiladu yn digwydd yr haf yma a gobeithir y bydd y fenter yn cynhyrchu trydan tua mis Hydref i elwa ar fisoedd gwlyb yr hydref a'r gaeaf.

Fe fydd yna Gyfarfod Cyffredinol yn cael ei drefnu cyn gynted a bo'r modd i ethol y Bwrdd i YnNi Padarn Peris lle bydd pob buddsoddwr yn cael un bleidlais. Mwy o fanylion i ddilyn ar ein gwefan www.ynnipadarnperis.org, ar Facebook www.facebook.com/Ynni-Padarn-Peris, ac ar Trydar @YnniPadarnPeris.

Ysgol Gwaun Gynfi



Ar y 18ed o Fawrth bu'r actores, Anwen Carlisle, yma yn rhoi perfformiad ac adrodd hanes Glenys Myfanwy Jenkins oedd yn cadw siop yn Abertawe yn ystod y blitz, 1941.

Eisteddfodau'r Urdd – Cylch a'r Sir

Bu plant yr ysgol yn llwyddiannus iawn yn y ddwy Eisteddfod. Mae'r côr a'r ensemble ac Osian Trefor Hughes yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol yn Fflint. Llongyfarchiadau iddynt oll a phob hwyl yn y Genedlaethol.

Dafydd a Ioan Bean ac Erin Wyn Williams oedd aelodau'r Parti Ensemble sydd yn mynd i'r Fflint. Profodd Dafydd a Ioan lwyddiant hefyd ar y ddeuawd i Bl 6 ac iau a Dafydd gyda'r cerdd dant unigol.

Osian Trefor Hughes

Wedi ennill ar yr alaw werin a'r unawd yn y Sir ac wedi dod yn ail ar yr unawd cerdd dant i blant Bl 5 a 6.

Elin Dafydd Evans

Profodd Elin Dafydd lwyddiant gyda'r unawd pres i blant Bl 6 ac iau.

Pêl-droed

Bu tîm pêl-droed yr ysgol yn chwarae yn erbyn tîm Ysgol Dolbadarn, Llanberis yn ddiweddar. Colli o 1 gôl i 0 oedd yr hanes mewn gêm agos iawn. Doedd y ffaith mai dyfarnwr gwael o Lanbêr oedd yn dyfarnu – rhyw G Evans – o ddim cymorth i'n tîm ni.

Llongyfarchiadau i Dafydd Christison Bean, Bwthyn Isaf, ar basio arholiad Piano Gradd 1 gyda Theilyngdod.



Yn ystod gwyliau y Pasg bu Ioan a Dafydd Bean yn Llanelli yn Parc y Strade gyda Tîm Rygbi dan 11 Caernarfon. Yn ystod yr ymweliad cawsoant y fraind o gyfarfod aelodau o dîm cyntaf Llanelli, a chymryd rhan yn yr orymdaith o amgylch Parc y Strade cyn y gêm. Gleision Caerdydd enillodd y gêm o 28 – 22.

Yn ystod y daith cafodd y tîm dan 11 oed, sydd yn ymarfer bob nos Wener ar Y Morfa, chwarae yn erbyn tîm o Furnace ger Llanelli a churo o 84 – 0.

Profiad bythgofiadwy i'r hogia, a Diolch i Hyfforddwyr y Tîm am drefnu.

E

Parhad DEINIOLEN

W

Dymuna Maureen a'r teulu ddiolch o galon i'w ffrindiau, cymdogion a theulu am yr arian, cardiau, blodau a galwadau ffôn am bob arwydd o gydymdeimlad o golli ei chwaer hynaf, sef Sheila Wallace yn 77 mlwydd oed. Roedd yn gynt yn byw yn Rhydfadog, Deiniolen. Diolch eto. Rhoddir yr arian tuag at Leukemia.

Llongyfarchiadau Mae Lee Roberts o Ddeiniolen wedi profi cryn lwyddiant yn ddiweddar trwy gael ei ddewis i chwarae yn nhîm dan 18 pŵl Cymru, er mai dim ond 14 yw oed Lee. Fe gystadlodd ym Mhencampwriaeth Prydain yn ddiweddar yn Bridlington, ac fe gurodd pob gêm a chwaraeodd ynddi, gan dderbyn canmolïaeth uchel am safon ei chwarae. Da iawn chdi, Lee, dal ati.

E

BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts.. Ffôn: 870580

W

TEYRNGED

HUGH FÔN ROBERTS

Fore Sadwrn, 12fed o Fawrth, daeth y newydd trist am farwolaeth frawychus o sydyn Hugh Fôn Roberts, yn ei gartref, Godre'r Coed, yn 83 mlwydd oed. Daeth yma i Frynrefail atom o Gaergybi wedi priodi gyda Lowri Prys ar Orffennaf 31ain 2014.

Yn fuan, daeth Hugh Fôn yn ffrind da i ni yn y capel ym Mrynrefail a chawsom fanteisio ar ei ddawn fel gweddiwr a phregethwr grymus, ei ddawn gerddorol ac fel aelod o'n Cymdeithas.

Fel y gwelir o'i enw, brodor o Fôn – o ardal Llanddeusant yn benodol – oedd Hugh a daethom i edmygu ei ffyddlondeb i'w fro enedigol ac yn arbennig i gapel Bethania. Bu'n flaenor am ddeng mlynedd ar hugain yn Nghapel Disgwylfa, Caergybi, gan wasanaethu fel pregethwr yn yr Eglwysi bach a mawr ym Môn, ac yn ddiweddar yn Arfon, am flynyddoedd maith. Er ei fod dan ofal meddygol, roedd yn benderfynol o barhau gyda'i gyhoeddiadau a hynny i'r Sul olaf cyn ei farw ac yn aml byddai'n teithio ar draws gwlad i bregethu ddwy a thair gwaith y Sul, yn gymwynaswr diffuant gan weithio yn ddiflino yng ngwaith ei Waredwr.

Nodweddion eraill o'i gymeriad y daethom i'w edmygu oedd ei addfwynder a'i gyfarchiad hwyliog a siriol bob amser. Meddai ar hiwmor unigryw ymhlith ei ffrindiau ymhobman, boed yn y capel neu ymhlith aelodau y ddau gôr y perthynai iddynt, sef Côr Meibion Caergybi a Chôr Meibion Dinas Bangor.

Diddordebau eraill Hugh oedd ei hoffter o gerfio mewn pren. Roedd wedi creu cannoedd o lwyau caru hyfryd a gyrhaeddodd bellafoedd byd a chreu modelau cywrain o longau a gorsafoedd trenau Ynys Môn lle bu'n gweithio am flynyddoedd.

Rydym yn falch fod Lowri a Hugh wedi cael mwynhau cwmni ei gilydd mewn sawl ffordd gyda'u cefndir crefyddol a cherddorol, ac yn arbennig eu diddordebau gartref yng Ngodre'r Coed. Cawsant deithio draws gwlad a thramor ond roedd y teithiau gyda'r trên yn rhai arbennig iawn, yn enwedig y daith olaf a fwynhaodd y ddau ar yr 'Orient Express' wythnos cyn ei farw.

Gwelir colli ei gwmniâeth hyfryd yn fawr iawn gan ei deulu a'i ffrindiau oll.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol cyhoeddus yn Amlogsgfa Bangor ddydd Gwener, Mawrth 18fed, gyda'r Parchedig Marcus Wyn Robinson yn gwasanaethu yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig Hugh Pritchard Llangefni gyda chyfraniad gan Gorau Unedig Caergybi a Bangor dan arweiniad Gwilym Lewis.

Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll iawn tuag at Lowri, ei ferch Helen Fôn, ei fab yng nghyfraith Greg a'i wyresau Shannon a Casey a'i wŷr Tyler yn eu profedigaeth, eu galar a'u hiraeth am un annwyl iawn.

Yr Eglwys Bresbyteraid

Y Gymdeithas

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y Gymdeithas nos Iau, Ebrill 14eg. Ein hysgrifennydd Dafydd G Ellis, Gweledfa, oedd llywydd y noson. Roedd y cyflwyniad i'r cyfarfod dan ei ofal a chawsom ganddo argraffiadau o'i ddiddordeb mewn cerddoriaeth werin yn ei ddetholiad o hunangofiant y delynores Nansi Richards. Rhoddodd hyn gyfle i'r rhai oedd yn bresennol fod yn y cywair priodol i ddisgwyl yn eiddgar am gyfraniad y gŵr gwadd, sef Dafydd Whiteside Thomas, oedd wedi dewis y testun "Helynt yr Alawon Cymreig". Fel y trodd allan, cawsom ein gwyrddroi i raddau o ddeall mai olrhain yr oedd ogoniant Seindorf Arian Llanrug, neu yn wir Seindorf Arian Frenhinol Llanrug o'i dyddiau cynnar ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pryd y bu 'yr alawon Cymreig' yn fater o bwys yn hanes cyffrous y Seindorf. Cawsom noson ddifyr a thrafodaeth ddiddorol ar y terfyn.

Mae y cyfarfod nesaf ar Fai 12fed. Gwyn Hefin Jones fydd y Cadeirydd a'r siaradwr gwadd fydd J. Elwyn Hughes, Bethel, gyda'i ddarlith 'Byd a Bywyd Caradog Pritchard'. Byddem yn falch o gwmni llawer o'n plith yn y pentref i droi i mewn i'r noson arbennig hon am 7 o'r gloch yn y Caban.

Oedfaon Mai am 5 yr hwyr

- 1: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
- 8: Parch Glenys Jones, Pwllheli
- 15: Sul y Pentecost, Mr J O Roberts, Bethesda
- 22: Parch Eric Jones, Bangor
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 29: Parch R.E. Hughes, Nefyn

Diolch Dymuna Lowri Prys a theulu y diweddar Hugh Fôn Roberts, Godre'r Coed, Brynrefail, ddiolch yn ddiffuant am y caredigrwydd, y gefnogaeth a phob cydymdeimlad estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli priod, tad a thaid annwyl iawn. Diolch arbennig i'r Parch. Marcus Wyn Robinson ynghyd a'r Parch. Hugh Pritchard, am arwain y gwasanaeth cofiadwy yn yr Amlogsgfa, i aelodau Corau Meibion Caergybi a Bangor dan arweiniad Gwilym Lewis ac i'r organydd Wyn Williams. Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon. Mawr ein diolch hefyd i'r ymgymerywyr E.W. Pritchard, Llanberis am y trefniadau teimladwy a thrylwyr.



Cefnogwch ein
hysbysebwy



Colli Geraint

Un o hogia Nant oedd Geraint, ac er iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i oes ym Methel, un o hogia Nant oedd o'n dal i fod. Roedd ei fagwraeth yno wedi bod yn sylfaen gref i weddill ei fywyd. Fe'i magwyd, ac Alwyn, ei frawd bach, ar aelwyd gariadus a gofalgarg; aelwyd Gymreig lle roedd diwylliant a chenedlaetholdeb yn flaenllaw iawn. Bu hynny'n rhan o'i gymeriad ar hyd ei oes. Y dylanwad mawr arall arno oedd Capel Rehoboth, lle roedd y rhan fwyaf o fywyd cymdeithasol y Nant yn cylchdroi. Mynychodd Ysgol Nant Peris ac Ysgol Brynrefail, cyn mynd ymlaen i Brifysgol Aberystwyth i astudio 'agricultural botany'. Wedi graddio dilynodd gwrs ymarfer dysgu a chael ei swydd gyntaf yn ysgol breswyl St David's, Llandudno. Bu yno am dair blynedd cyn cael swydd dysgu bioleg yn Ysgol Tryfan, Bangor. Symud eto, y tro hwn i'r Adran Addysg yng Nghaernarfon; swydd a roes bleser mawr iddo, a chael cyfle i gydweithio hefo'i gyn athro Daearyddiaeth ym Mrynrefail, Mr Carol Hughes. Y symud olaf oedd dros y dŵr i Fôn, a gorffen ei yrfa fel Pennaeth Gwasanaeth Addysg yr ynys. Bu'n annwyl ac amyneddgar ym mhob un o'r swyddi, a fyddai byth yn dal dig. Roedd yn gydwybodol

iawn, ac yr oedd yn dipyn o jôc yn y cartref pan oedd y plant yn ifanc, oherwydd byddai pob taith car yn ystod y gwyliau yn mynd heibio rhyw ysgol neu'i gilydd – i ddangos rhyw estyniad newydd neu i sicrhau fod gwaith adnewyddu'n cael ei wneud! Oedd, roedd y plant yn adnabod pob ysgol yng Ngwynedd a Môn!

Fel amryw o hogiau'r fro, cafodd Geraint swydd ar reilffordd yr Wyddfa yn ystod ei wyliau coleg: giard ar y trên bach. Ac yn y caff ar y copa roedd merch o Lanberis yn ennill arian poced dros wyliau'r haf. Buan y datblygodd y garwriaeth rhwng Geraint ac Anne; carwriaeth a barhaodd weddill eu hoes. Ac er mai un o Lanberis oedd Anne, roedd ei thad o'r Nant, a'r gwreiddiau, felly, yn ddigon cadarn. Bu'r car bach – A35 du – yn dringo'n rheolaidd heibio'i Hebron i gwrdd ac Anne, ac wedi priodi yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis yn 1971, a geni Angharad flwyddyn yn ddiweddarach, bu'r car bach yn cario'r tri led-led Cymru i raliau Cymdeithas yr Iaith a'r Eisteddfodau Cenedlaethol.

Ganwyd Manon yn 1975, Gwenan yn 1978 a Dyfan yn 1980, a dyna'r teulu'n gyflawn, a bu Geraint yn dad cariadus a balch o'r pedwar. Roedd yr un mor falch o ddewis cymar y pedwar, a chyfoethogwyd y teulu gyda dyfodiad yr wyrion a'r wyresau: pob un yn cyfoethogi ei fywyd mewn gwahanol ffordd.

Roedd yn angerddol dros gadw'r traddodiadau, a phan symudodd y teulu i Fethel yn ystod y 1970'au, dyna ddechrau cyfnod prysur o fagu teulu a chyflwyno gwerthoedd diwylliannol a Chymreictod i'r plant. Yn ystod yr un cyfnod, symudodd teuluoedd ifanc eraill i'r pentref, a buan yr ail-sefydlwyd Cangen yr Urdd, gyda Geraint yn gadeirydd y pwyllgor am flynyddoedd. Bu'n gyfrifol hefyd am y Noson Tân Gwylt cyn bod son am Iechyd a Diogelwch! Ail-sefydlwyd Eisteddfod Bethel, a bu'n arweinydd am flynyddoedd, yn ogystal a bod yn Archdderwydd o'r cychwyn. Bu'n gadeirydd y Neuadd Goffa, a gweithiodd yn egniol i'w chynnal am flynyddoedd. Penllanw pob tymor oedd yr wythnos weithgareddau yn diweddu gyda'r carnifal blyneddol.

Cynrychiolodd Bethel ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am gyfnod cyn dechrau gweithio i'r Adran Addysg, a dychwelodd i'r swydd honno rhyw ddwy flynedd yn ôl. Roedd yn cymryd ei ddyletswyddau o ddifri, ac yn deg â phawb bob amser. Ymunodd â'r Gymdeithas Lenyddol a Chlwb Bro Bethel, a bu'n aelod ffyddlon o Glwb Eryri am flynyddoedd. Bu'n ymwneud hefyd â'r Mudiad Meithrin am flynyddoedd, a chafodd y fraint o fod yn gadeirydd y mudiad am ddwy flynedd.

Fel yn ei ddyddiau cynnar yn y Nant, daeth Capel y Cysegr yn rhan bwysig o'i fywyd. Roedd yn flaenor ers 1980, a bu'n athro ac Arolygwr Ysgol Sul. Roedd hefyd yn Ysgrifennydd Ariannol yr Henaduriaeth ers blyneddau.

Roedd yr holl weithgarwch hwn yn deillio o'i gred angerddol yn y pwysigrwydd o gadw'r traddodiadau cymunedol yn fyw. Doedd ryfedd felly iddo fod yn rhan o bapur bro "Eco'r Wyddfa" o'r cychwyn cyntaf, ddeugain mlynedd yn ôl. Fo oedd yr unig un o'r gweithwyr presennol i fod ynghlwm â'r papur o'i ddechreuad; yn aelod o'r pwyllgor gwaith ac yn ohebydd newyddion a dosbarthwr Bethel o'r rhifyn cyntaf. Geraint hefyd yn ystod y blyneddau diweddaraf oedd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, a llywiodd ddatblygiad y papur i gynnwys tudalennau lliw a sefydlu ei wefan.

Collodd y fro dalp o gyfrannwr. Collodd mudiadau a chymdeithasau Bethel weithiwr diflino. Ond y mae'r golled i Anne a'r teulu gymaint mwy. Ar ran holl weithwyr a darllenwyr yr "Eco" anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â chwi yn eich profedigaeth.

Diolch Geraint am fod yn .. Geraint, un o hogia Nant.

Clwb Bro Bethel Daeth nifer dda ynghyd yn ddiweddar i wrando ar sgwrs gan Twm Elias. Soniodd am ei ddiddordeb yn casglu straeon a hel atgofion. Roedd yr arferiad o drosglwyddo hanes ar lafar yn gwanio ac felly pwysleisiodd pa mor bwysig oedd cofnodi amrywiol ddigwyddiadau. Rhannodd hefyd hanesion cymeriadau anhygoel oedd yn dod i'w gof, a chawsom straeon difyr ganddo ar wahanol feddyginiaethau. Diolchwyd iddo am sgwrs ddiddorol iawn gan Rita Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 3ydd, gyda Gareth Ff. Roberts yn wr gwadd yn Festri Bethel, a bydd trefniadau y Trip yn cael eu cwblhau.

Merched y Wawr, 13 Ebrill Croesawyd pawb gan ein llywydd Mair.

Yn gyntaf cydymdeimlwyd ag Ann ar golli Geraint a thalodd Mair deyrnged fer iddo.

Llongyfarchwyd y criwiau a fu'n llwyddiannus yn y Steddfodau Sir gan ofyn am gefnogaeth i'r cyngerdd nos Sul, Ebrill 24ain, yn Capel Cysegr. Bydd Sioned Terry a doniau lleol yn ein diddanu. Croesawyd Awen Haf atom, sy'n arbennig-wraig garddio, yn

gweithio yn Fron Goch ac yn cyfrannu i Galwad Cynnar ar Radio Cymru. Cawsom gynghorion gwerthfawr ar ddeunydd a maint potiau, pridd a gwahanol flodau i'w llenwi. Diolchwyd i Awen gan Liz ac enillwyd y raffl gan Mary ac Anita.

Dewiswyd swyddogion newydd: Is-Lywydd, Liz Watkin, Is-Ysgrifennydd, Eirlys Williams.

Aelodau'r pwyllgor: Mary, Efa, Falmai, Gwyneth, Eleri, Rhian a Glenys.

Bydd yr Is-Drysorydd yn cael ei dewis o aelodau'r pwyllgor.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Mai'r 11eg, pan fydd Rhys Mwyn yn trafod Archaeoleg.

Noson Llawn, Cwmni Da S4C Cyflwynwyd £50 i'r Cylch Meithrin yn dilyn gwerthiant tocynnau i'r noson uchod. Diolch i bawb - Rita.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pob dymuniad da i holl blant Adran yr Urdd, aelodau o Ysgol Brynrefail a Choleg y Brifysgol, Bangor, sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd rhwng 30 Mai - 4 Mehefin 2016

Parhad BETHEL



CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos, rhiannonmai@btinternet.com



I Ann a'r teulu er cof am Geraint Elis

Bydd cryfder yng Nghilgeran – yn aros
Angharad a Gwenan.
Nid ofer, Manon a Dyfan,
cario'r dydd wna cariad Ann.

Ac heddiw, chwi yw'r gwaddol – i lynu'r
olyniaeth deuluol.
I dad a thaid, rhaid yw'ch rôl
i asio'i werthoedd oesol.

I Ger, pwylllo cyn geiriau – yn ei fyw,
yn ei farn o ffeithiau.
Y gwir fu'r golud gorau.

Heb edliw, bu'n driw i'w dras – dros ei hiaith
hyderus o'i hurddas;
i'n cymuned, cymwynas.

Hogia'r Nant rhowch Ger yn ôl – yn ei fawn
dan feini cysgodol.
Ewch â chorff i wres ei chôl,
adref y daw'r mab crwydrol.

Yno'r bwlch ble gwawria'r byd, - yno'r graen
yno'r graig i'w febyd.
Rhannu'r cur, rhain ar y cyd
a'i thafod uniaith hefyd.

Daw y nos, ond Llygaid y Nant – welwn
yn olau, sy'n warant
trwy'r ofnau, y mae trefniant.

I'ch dal, clymwch eich dwylo – yn gwlwm
rhowch galon i'r cofio.
Yn annwyl wedi'r wylo
daw o hyd ei ysbryd o.

Richard Llwyd Jones
Dydd ei Angladd
Ebrill 15, 2016.

Diolch i aelodau Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am drefnu yr Helfa Wy Pasg flynyddol. Diolch hefyd i Simon a Karen Element o'r Plasdy yn Glan Gwna am y lluniaeth ar y bore a diolch i bawb a gyfrannodd gacennau bach i fynd efo paned. Diolch i blant y pentref ddaeth i gefnogi y digwyddiad ar Sul y Pasg.

Gwasanaethau y capel

Dydd Sul, Mai 1af am 2 o'r gloch, Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Dydd Sul, Mai 22ain am 2 o'r gloch, Y Parch Harri Parri, Caernarfon.

Llywydd y mis fydd Huw Ceiriog gyda Bethan Iwan wrth yr organ.

Tynfa'r mis Ceri Roberts, 6 Erw Wen (37) £40; Mike Jones, 10 Bryn Gof (52) £25; Cadwaladr Evans, Waunfawr (65) £15; Nia Jones, 10 Glan Gwna Terrace (66) £5.

Diolch Dymuna Aled Jones (Aled Lodge), ddiolch o waelod calon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion yng Nghaeathro a'r Cylch am eu caredigrwydd ym mhob ystyr tra roedd yn cael triniaeth ddyddiol yn Ysbyty Glan Clwyd. Diolch yn fawr iawn.

Ffarwelio Mae Mr Myfyr a Mrs Gwenda Jones, Plas Glan Gwna, ar fin symud i'w cartref newydd yn Y Faenol a chymerwn y cyfle hwn i ddymuno'n dda iddynt a diolch iddynt am eu cymwynasgarwch a'u caredigrwydd ar hyd y blynyddoedd tuag at bobl a phlant Caeathro. Bu yr Helfa Pasg yn llwyddiant eto eleni, a'r haul yn gwenu ar fore Sul y Pasg. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn ac y cewch dipyn o seibiant.

Llongyfarchiadau Dymuniadau gorau i Lowri a Betsan Ceiriog sydd wedi dathlu pen-blwyddi yn 21 ac yn 18 oed yn ddiweddar, a chofiwn am Eirian Griffiths, Annedd, sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig fis Ebrill.

Profedigaeth Bu farw Mrs Eirlys Pritchard, 8 Bryn Gof, yn ystod y mis, a hithau yn byw yng Nghartref Cerrig yr Afon ers tro. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Caeathro ar ddydd Llun, Ebrill 18ed, dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson. Yn ôl y cofnodion bu'n aelod o'r Eglwys ers ei bedydd yno yn 1926/27. Cydymdeimlwn â'r plant Harriet, Victor, Dylan a Iona, a'u teuluoedd yn eu colled.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

**SYMUDD
A CHADW**

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

DODREFN A LLORIAU

PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• **01286 673535** •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG



Nodau Clustiau plwyfi'r fro.






Yn ystod y mis diwethaf anfonwyd dalennau yn dangos nodau clustiau gwahanol ffermydd ym mhlwyfi Llanddeiniolen a Llanberis i mi. Gyda diolch i Andre Lomozik o Fethesda am eu copio a'u hanfon ymlaen. Yn anffodus, nid oes syniad ganddo o ddyddiad y rhestr nodau hyn, ond dichon y gall rhai o ddarllenwyr y golofn, ac yn enwedig ffermwyr y fro roi cymorth. Nid yw'n ymddangos fod holl ffermydd y ddau blwyf wedi eu cynnwys yn y rhestrau, ond efallai mai wedi eu colli o'r rhestr wreiddiol y mae'r gweddill.

Does gen i mo'r syniad lleiaf am y cyfnod y cychwynnwyd rhoi nod clust i ddafad i ddangos pwy oedd y perchennog, ond mae'n eithaf sicr fod y nod hwnnw wedi aros yn ddigryfnwedd ers rhai canrifoedd. Gwn o waith ymchwil rai blynyddoedd yn ol fod nod clust fferm a ddaeth yn ddiweddarach yn Blas y Brenin, Capel Curig, yn bodoli ers 1800. Mae tystiolaeth bendant i brofi hynny. Dyna fynd a ni'n ol dros ddau can mlynedd felly. Ond doedd rhai o'r tyddynnod a restrir yn Llanddeiniolen ddim yn bod ddau can mlynedd yn ol, oherwydd mai tir comin oedd rhan helaeth o'r plwyf. Sut felly y penderfynwyd ar nodau clust i ddefaid y daliadau 'newydd' hyn? A pham tybed y mae rhai o'r tyddynnod efo dau nod clust gwahanol?

Sylwch, er enghraifft ar ddaliad Cae bach, Llanddeiniolen; tyddyn bychan iawn gerllaw Capel y Glasgoed. Mae dau nod clust yn perthyn i'r daliad hwn. Mae'n amlwg hefyd fod dau ddaliad o'r enw Cae Mawr yn y plwyf, oherwydd rhestrir dau nod clust gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r rhestr. Ac yn sicr, nid fferm na thyddyn oedd 12 Vaynol Terrace – ond mae nod clust yn eiddo i'r perchennog! Mae daliadau Bryn Derw, Brynrefail wedi eu gwahaniaethu yn ol perchennog neu denant: William Roberts, William Foulkes a T. Foulkes, ond mae dau nod clust gan bob un. Mae ffermydd Blaen y cae a'r Llys efo tri o nodau clust.

Ydi'r nodau clust hyn i rai o'r tyddynnod 'diflanedig' yn parhau?

Cawn olwg ar nodau clust plwyf Llanberis y mis nesaf.



Llyn Llam Dda.



Gyda diolch i Hugh Williams, Llanrug am gysylltu a chadarnhau fod planc trwchus o bren ar draws yr afon yn Llyn Llam Dda, ond gan ychwanegu hefyd fod weiar rop/ tchaen yn fath o ganllaw i groesi'r bont bren amrwd. Roedd yn byw'n yr ardal pan yn blentyn, ond yn nofio yn afon Gwyrfai ar ochr uchaf pompren Gwredog. Dim ond pan yn llafrifanc yr oeddent yn mentro i Lyn Llam Dda, ac yn gofalu cadw'n ddigon clir o'r trobwll oedd yno! A chlywodd o ried yr enw Llyn Tchaen yn cael ei ddefnyddio. Diolch i Duncan Brown hefyd am anfon llun y gadwyn, ac awgrymu mai trigolion ardal y Bontnewydd fu'n gyfrifol am roi'r enw Llyn Tchaen ar y pwll, a lled-ddileu'r hen enw llawer mwy arwyddocaol.

Dirgelwch Humphrey Hughes.



Ddaeth dim mwy o hanes y gwr ifanc hwn o Lanrug yn America, ond diolch i Dylan Hughes, Llanrug am anfon lluniau o gerrig beddau'r teulu ym mynwent eglwys Llanrug. Ac ar y bedd mae coffad i'r ddau aelod o deulu Egryn Villa a fu farw yn America. Mae'n ymddangos felly fod y teulu yn Llanrug wedi dod i gysylltiad a'u perthnasau ar draws yr Iwerydd.

Ifaciwis Brynrefail.

Cysylltodd Haydn Lewis, Penisarwaun efo mwy o hanes ifaciwis ym Mrynrefail. Dyma oedd ganddo i'w ddweud:

“Dwi'n cofio Malcolm o Middlesex yn aros efo brawd fy nhad Dei Lewis a'i wraig Anti Maggie ym mwthyn Bryn Madog (roedd 3 Bryn Madog). Herbert fy mrawd sy'n hŷn na fi oedd yn ei gofio yn ysgol Tan y Coed, Penisarwaun achos roedd yn mynd â fo i'r ysgol. Daeth yn Gymro rhugl. Roedd yn dal i ddod yn ôl bob gwyliau haf tan 1955 ac roeddni ni wedi symud i fyw i Lanrug a chofiaf fynd efo fo a gweld Ysgol Brynrefail yn cael ei chodi a bron yn barod. 12 mlynedd yn ôl daeth Malcolm eto i'r ardal a mynd

at Ken Cae Coch i gael gwybod fy hanes. Daeth i'r Amgueddfa i Lanberis lle'r oeddwn yn gweithio. Roedd ei wyrion efo fo'r tro hwnnw. Rydan ni'n dal i gysylltu bob Dolig.

Mae Herbert yn cofio Tony a Jimmy Mc Cloud yn Bryn Llwyd Brynrefail. Holodd y diweddar Tom Foulkes amdano a dweud ei fod yn yr Alban . Roedd Jonnie “Chindits” gafodd yr enw am fod ei dad yn y Special Force o'r enw hwnnw yn Burma yn 1943 yn faciwi yn Stabla. Roedd o'n mynd i Ysgol Tan y coed hefyd.”

CHWILOTA Parhad



Ysgol Tan y Coed.



Ac o son am yr hen ysgol ym Mhenisarwaun, a'r cais ynglŷn â chofeb Beuno Jones yn y rhifyn diwethaf, dyma lun o'r prifathro yn dysgu'r anthem genedlaethol ar fwrdd du ym muarth yr ysgol.

Mae'r ail lun yn dangos athrawon yr ysgol yng nghyfnod Beuno Jones. Fy nain, Emily Whiteside, sy'n eistedd ar y dde. Ond pwy yw'r gweddill tybed?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

CWMYGLO



Profedigaeth Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r ddiweddar Marian Williams, gynt o'r pentref; ei phriod Albert, y plant Nerys, Clifford a Shirley, ei wyrion a'i wyresau, ei brodyr Arfon a Gwyrfaï a'i chwaer, Elizabeth, yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Noel Parry (gynt o Dôl Afon) ac Emrys Hughes yn Lerpwl (gynt o Graig y Don) yn ei brofedigaeth o golli ei briod, Jane.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed.

Diolch Dymuna Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, ddiolch yn ddiffuant iawn i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a'r Dr Carol Roberts am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn festri eglwys Sant Mair bnawn Mawrth, 19 Ebrill. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Pat, Iris a Jinni. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Mawrth gan Auriel a phasiwyd eu bod yn gywir.

Aeth nifer o'r aelodau ar y 5 Ebrill i'r gwasanaeth yn y gadeirlan i ddathlu 125 o flynyddoedd y mudiad yn y ddeoniaeth. Cafwyd pregeth gan Y Gwir Barchedig Esgob Andy John ac anerchiad gan Jenny Lane. Darllenwyd y llithoedd a'r gweddïau gan rai o'r aelodau. Cludwyd baner mudiad Plwyf Llanbeblig gan Caroline Jones ar gannwyll gan Auriel a Wendy. Rhoddwyd y faner wrth yr

allor a baneri y Mudiadau oedd wedi gorffen yn y cyntedd, yno oedd baner Eglwys Sant Mihangel Llanrug/Eglwys Sant Gabriel. Yr oedd tua 150 o aelodau yn y gwasanaeth a chafwyd lluniaeth yng nghanolfan y ddeoniaeth. Trafodwyd yr emyn, salm a gweddi i'w rhoi yn y boced ar y faner. Cafwyd amser i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu tra yn cael paned, oedd wedi ei threfnu gan Auriel. Rhoddwyd y raffl gan Auriel ac fe'i henillwyd gan Joyce Ransom. Diolchwyd i Auriel gan Hilda. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf ar 17 o'r mis.

Mrs Marian Williams, Y Felinheli.

Ganwyd a magwyd Marian yn Seiont House. Merch hynaf Mr Hugh Jones a Mrs Elizabeth Mary Jones, ac yn chwaer i Arfon, y diweddar Gwilym, Gwyrfaï ac Elizabeth. Bu farw yn hollol annisgwyl yn Ysbyty Gwynedd brynhawn dydd Iau, y 24ain o Fawrth. Bu yr angladd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli, brynhawn dydd Gwener, 1af o Ebrill, a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Llanfair-is-gaer, Y Felinheli. 'Roedd yn briod ag Albert, yn fam i Nerys, Clifford a Shirley ac yn Nain i naw a Hen Nain i wyth o blant. Bydd colled enfawr ar ei hôl i'r teulu oll ac hefyd i'w ffrindiau, yn cynnwys Enid (Allt Goch gynt) oedd yn ffrind ers pan yn Ysgol Cwm.

FACHWEN



Myfyrdod Macpela Deiniolen Sadwrn cyn Sul-y-bloda' 2016

Ganwyd a magwyd Marian yn Seiont House. Merch hynaf Mae brenin a'i frenhines yn y gro

Fan hyn... Deugain mlynedd, fwy neu lai

Rwy'n dod, o barch a chariad yma dro

Iddynt 'wrando' nghwyn neu fadda' 'mai?

Mae eu lle di-sifl wedi symud peth

Ers dyddiau'r dagrau â'r gorffwyso mawr,

Ac er pan elwais dro yn ôl, mae'r heth

Wedi gyrru'i rhenc un-yn-ôl yn awr...

Dof ar eu pen-blwydd, y gwylia – a'r Pasg –

A chelyn Dolig i oleuo'i bedd,

Mae gŵyl a'i defod yma'n gwneud y dasg

Yn haws, â'r plygu pen yn dod â hedd

Fel heddiw – â'r môr daffodiliau'n ias:

Balch wyf o'r trysor dan y garreg las.

Norman Closs



KERFOOTS EST 1874

136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT

Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth
I bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen
neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch
hamddenol.

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R
HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP,
NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw
gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

www.kerfoots.com

enquiries@kerfoots.com

Tel: 01766 512256



**ORIEL
CWM**

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm



Merched y Wawr

Nos Fawrth, Ebrill 12fed, am 7.30 cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad. Estynnwyd croeso twymgalon i bawb gan y Llywydd, Menna, a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mair, Helen, Ann Lloyd, Megan ac Eirianwen. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ar Sadwrn, Mai 14, yn Ysgol Friars Bangor.

Rydym fel Cangen yn anfon ein cydymdeimlad llwyrat at Anne Elis a'r teulu, Cilgeran, Bethel, yn eu profedigaeth o golli un o gymwynaswyr mawr ei fro, sef Geraint Elis.

Gŵr gwadd y noson oedd Dafydd Jones Morris, yn wreiddiol o Dregarth ac yn fab i blismon. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Dyffryn Ogwen, ac mae'n byw bellach ym Mhenrhosgarnedd, Bangor, gyda'i wraig, Eirian, ac yn dad i ddwy ferch. Mae bellach wedi ymddeol o fod yn Bennaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru. Er hynny mae'n dal yn brysur ac yn aelod ers blynyddoedd o Gôr y Penrhyn ac yn ddiagon yng nghapel Pendref Bangor. Mae amser ganddo rŵan i ddilyn ei ddiddordebau ac mae'n treulio oriau hefo'r Trên Bach sy'n rhedeg o Gaernarfon i Borthmadog ac mae'n hoff o wneud gwaith coed.

Treuliwyd orig ddifyr yn gwrando arno yn olrhain ei hanes hefo'r Gwasanaeth Ambiwylans a hynny ers 39 o flynyddoedd cofiadwy.

Cychwynnodd gyda Gwasanaeth Ambiwylans Sir Gaernarfon yn 1972. Wedi cyfnod o ymarfer yn Wrenbury Hall, a dychwelyd

i Fangor byddai'r gwasanaeth yn golygu trafaelio dros y wlad gyfan ac weithiau cyn belled ag Aberdeen yn yr Alban. Yn y saithdegau hwyr derbyniodd Dafydd dystysgrif ICAP ac yn 1986 llwyddodd i dderbyn y swydd amhrisiadwy fel Paramedig. Cafodd y fraint o weithio gyda'r RAF a Chlwb Achub Mynydd Llanberis. Yn 1998 gwnaed Dafydd yn Swyddog Rhanbarthol i Wasanaeth Ambiwylans Cymru a bu'n gyfrifol am hybu'r iaith Gymraeg i'r staff a chleifion fel Cadeirydd Grŵp Gweithredol yr Iaith Gymraeg. Fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth clodwiw i'r Gwasanaeth Ambiwylans yng Nghymru derbyniodd fedal gan y Frenhines ar ran Ambiwylans Cymru.

Diolchodd Menna i Dafydd am sgwrs hynod o ddifyr a'i fod yn sicr yn haeddu medal am y gwaith amhrisiadwy a wneir gan Wasanaeth Ambiwylans Cymru. Diolchir iddo hefyd am roi ei gyfraniad ariannol i Elusen Ambiwylans Awyr Cymru.

Enillydd Raffl y noson oedd Myfanwy. Diolch i Avril, Margaret ac Eryl am ofalu am y baned. Mis Mehefin byddwn yn mynd ar ein Trip Blynyddol. Buasai Meryl yn falch o'r arian yn y Cyfarfod Blynyddol ar Fai 10fed os gwelwch yn dda. Bydd y bws yn cychwyn o Benisarwaun am 5.45 ac yna Ffordd yr Orsaf a Sgwâr Llanrug. Pris y bwyd yw £18 am ddau gwrs, £22 am dri chwrs.

Ar Mai 10fed cynhelir y Cyfarfod Blynyddol a Gosod Blodau gyda Susan Peters.

Drych gwelededd newydd yn Llanrug Mae cyffordd Ffordd Minffordd a Ffordd Glanffynnon yn gyffordd sydd wedi achosi problemau gwelededd i yrwyr ar hyd y blynyddoedd. Mae'n gyffordd sydd yn gallu bod yn berygl i geir wrth ymuno â Ffordd Minffordd o gyfeiriad Ffordd Glanffynnon.

Tynnodd Cyngor Cymuned Llanrug, drwy y Cynghorydd Rhys Parry, Glanffynnon, sylw at y broblem drwy gysylltu â Chyngor Gwynedd. Atebodd Cyngor Gwynedd yn brydlon i'r pryder a godwyd ac fe roddwyd addewid eu bod yn mynd i ymchwilio i'r mater.

Ar ôl cynnal eu ymchwiliad, cadarnhaodd swyddog y Cyngor Sir bod angen drych gwelededd ar y gyffordd er mwyn gwella diogelwch gyrwyr. Roedd addewid gan y Cyngor yn dweud y buasai y drych yn ei le o fewn mis. Ychydig dros bythefnos ar ôl i'r addewid gael ei roi roedd y drych yn ei le ac mae gwelededd y gyffordd wedi cynyddu yn sylweddol.

Dywedodd y Cynghorydd Rhys Parry, "Diolch i Gyngor Gwynedd am eu cydweithrediad ac am weithredu mor gyflym er mwyn gwella y welededd a diogelwch gyrwyr ar lonydd Llanrug. Diolch hefyd i'r trigolion rheiny a dynnodd fy sylw i'r broblem"

Gwaeledd Dymunwn wellhad buan i Charlotte Evans, Nant y Glyn, sydd wedi treulio cyfnod yn un o ysbytai Lerpwl. Mae ar hyn o bryd yn ôl yn Ysbyty Gwynedd ond yn debyg o fynd yn ôl i Lerpwl am fwy o driniaeth. Pob dymuniad da, Charlotte, ac edrychwn ymlaen i'th weld gartref yn fuan.

Cydymdeimlad Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at

Eilwen, 20 Hafan Elan, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer annwyl, Gwyneth Roberts, Llanberis.

Diolchiadau Dymuna Mrs Catherine Griffith, Tan y Fron, Lôn Groes, ddiolch o galon i bawb am yr holl garedigrwydd dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth fawr a gafodd yn Lerpwl. Mae'r holl gardiau, arian, blodau a galwadau personol wedi golygu llawer iawn iddi.

Coop yn helpu yn y gymuned

Hoffwn ddiolch i staff y co op am eu cymorth yn ddiweddar yn helpu i dacluso a hel sbwriel ym mharc Nant y Glyn. Casglwyd 14 o fagiau sbwriel.

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb Cant Ebrill: 1. Gwenda Roberts, Lleifor; 2. Enid Williams, Rhos Rug.

Capel y Rhos

Cynhaliwyd Cymdeithasfa'r Gogledd yma ar Ebrill 12 a 13. Croesawyd nifer fawr o gynrychiolwyr a gwahoddedigion o sawl Henaduriaeth. Mrs Megan Roberts oedd yn cyfeilio yn y sesiynau. Etholwyd y Parch Bryn Williams, Pwllheli (Tan y Gaer gynt) yn ddarpar Lywydd y Sasiwn. Mae hyn yn anrhydedd fawr iddo ac yn fwy felly gan ei fod wedi ei urddo yng nghapel ei febyd.

Paratowyd y lluniaeth ar gyfer pawb gan Mrs Cerid Mackinnon, Pryd i Bawb, a bu nifer o'r aelodau yn ei helpu i weini. Mawr yw'n diolch i bawb fu'n helpu mewn unrhyw ffordd.

Bedydd Ar Ebrill 3ydd, bedyddiwyd Mared Fflur, 8 Rhes Rhythallt, gan y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson. Mae'n ferch fach i Lowri ac Adrian a dymunwn bob bendith i'r teulu bach.

Eglwys Sant Mihangel

Bu John Grisdale, drwy gyfrwng cerddoriaeth a lluniau, yn adrodd hanes gwasnaeth Tim Achub Mynydd Llanberis yn Sefydliad Coffa yn ystod mis Ebrill. Prynhawn difyr ac addysgiadol dros ben, a fwynhawyd gan bawb oedd yn bresennol.

Ddydd Sadwrn, 14 o Fai o un o'r gloch hyd bedwar, cynhelir te gardd yng ngardd Eirianwen a Dafydd, Bron y Nant, Pontrhythallt. Bydd amrywiol stondinau. Croeso cynnes i bawb. Elw tuag at gronfa adnewyddu'r eglwys.

Oedfaon mis Mai

- 1: Y Gweinidog, y Parch Marcus Robinson a gweinyddir y Cymun
- 8: Parch R.O. Jones
- 15: (Pentecost) Y Gweinidog
- 22: Parch Glenys Jones
- 29: Gwasanaeth gan yr aelodau.

Yr Ysgol Gynradd



Gyda tymor newydd o'n blaenau mae'r dosbarthiadau i gyd yn dechrau ar themau newydd. Mae blwyddyn Meithrin a Derbyn yn canolbwyntio ar fwyd tra bo blwyddyn 1 a 2 yn gwneud gwaith ar fôr a mynydd. Bydd yr adran iau yn cychwyn ar thema teithio gan ganolbwyntio ar ddaeyryddiaeth a gwledydd tramor. Bedwen Lyfrau

Fel rhan o Bedwen Lyfrau mae Angharad Tomos yn teithio o amgylch ysgolion y fro. Daeth i Ysgol Llanrug i drafod Paent a darn Bach o Bapur. Mwynhaoedd y plant y profiad o holi awdures.

Peldroed

Bu genod a bechgyn blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu mewn trwnament peldroed Yr Urdd yn ddiweddar ym Mhorthmadog. Cafodd y genethod lwyddiant a cholli yn unig yn y rownd gyn-derfynol.

Big Pedal

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yng nghysdadleuaeth big pedal er mwyn hyrwddo teithio i'r ysgol gyda beic neu sgwtir.

Gwau Tedis



Yn dilyn yr apêl ddeufis yn ôl am wirfoddolwyr i wau tedis er elusen, mae'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda nifer yn troi allan am sgws a phaned yn Y Sefydliad Coffa ar brynhawn Mercher yn wythnosol. Ers cychwyn yr apêl, mae dros gant o dedis wedi eu gwau, a phob un yn mynd i ddod

a phleser i blentyn bach yn rhywle. Ond mae'r ymgyrch yn parhau, ac mae croeso i fwy ymuno. Dowch draw i'r Sefydliad Coffa am un o'r gloch bob pŵn Mercher – a chofiwch eich gwlan a'ch gweill.

Teyrnged i gymydog a chyfaill ffyddlon, sef Phillip Jones, Penbryngwyn

Dywedodd cyfaill un tro fod yna wahaniaeth mawr rhwng cymydog a dyn drws nesaf. Gallaf dystio fod Phil a'i deulu yn haeddiannol iawn o'r statws cymydog, sydd mor bwysig yr oes hon. Roedd drws cymwynas ar agor ddydd a nos ym Mhenbryngwyn.

Roedd c'n, cathod, ieir ac adar yn agos iawn at galon Phil. Yn aml iawn, tra'n sgwrsio gydag ef o gwmpas ei gartref, fe ddeuai iâr neu gath o rywle, yna chwilio am fantais er mwyn disgyn ar ei ysgwydd.

Rwyf yn cofio iddo ddweud bod y wenoliaid i'w gweld; minnau yn ymateb trwy ddweud fy mod yn cau drws y sied olchi dillad oherwydd y llanast yr oeddynt yn ei adael, ac meddai Phil

'Gyrfa hwy i Benbryngwyn, fe gânt groeso yma.'

Diolch hefyd am wasanaeth Phil fel ysgrifennydd Bugeiliaid yr Ucheldir am gyfnod. Byddai'r plant yn dod gyda ni os byddai cyfarfodydd yn yr hwyr, ond os byddai'r cyfarfodydd ymlaen yn oriau'r dydd byddai'n rhaid bod gartref i dderbyn y plant o'r ysgol. Roedd Phil yn ddyn hynod wybodus ac felly yn gallu trin a thrafod ar lefel uchel a phwysig.

Cofiaf i Karen unwaith ysgrifennu llythyr ar ei ran i'r llywodraeth yn Llundain a chyfeiriwyd at gynnwys ein trafferthion yn Hansard y Llywodraeth. Roedd yna dipyn o hwyl bryd hynny.

Holl ystyr bywyd i Phil oedd ei deulu. Roedd ar gael bob amser, yn eu danfon a'u cludo yn ôl yr angen ond roeddynt hwythau yn cofio hynny pan dorrodd iechyd eu tad. Roedd ei blant gydag ef i'r diwedd, gyda Karen, eu mam, yn ei gynorthwyo a Steven, ei fab hynaf, yn ei law, ynghyd â'i chwaer a'i ddau fab ynghlwm wrth ei wely.

Rwy'n cofio mynd i giât y Marchlyn rhyw gyda'r nos yr haf diwethaf a Phil yn dod fel arfer am sgwrs. Gan fod y ddau ohonom â diddordeb mewn barddoniaeth roedd llawer o amser yn cael ei dreulio ar y pwnc ond, y noson honno, doedd dim llawer o awydd sgwrsio arno ac fe ddywedodd cyn gadael ei fod wedi cael newydd drwg a'i fod yn dioddef o gancr.

Ar ôl cyrraedd Cefn Coch y noson honno, yn ôl fy arfer gafaelais mewn llyfr. Penillion ac englynion oedd ei gynnwys. Agorais y llyfr, ac er mawr syndod roedd y penillion a welwn fel petaent yn trafod Phil.

Y Penillion


Ffarwel hen gyfaill tirion
Fu'n gymwynaswr bro,
Fe ddaeth yr wŷs anorfod
I tithau yn dy dro,
A thrist fu'r ymwahanu
Pwy ddydd ar gyfyng awr,
Pan 'sgydwem law, a tithau
Yn croesi'r adwy fawr.

Ffarwel fy hen gymydog
Bonheddig, rhadlon, ffrî,
Y gweryd byth ni chuddia
Dy gyfeillgarwch di.
Yr hen gwmniwr diddan
Fe'th gollaf di rwy'n siŵr,
Oreugwr mwyn y werin
Fuost iddi'n gadarn dŵr.

Ffarwel fy hen gydymaith
A hynaws ŵr y Bryn,
Bu melys ein cyd-deithio
Y deugain mlynedd hyn.
Doed Duw i'm cynnal innau,
Anwadal grwydryn ffôl,
Ar eirwon lwybrau'r anial
Wrth ddyfod ar dy ôl.

Diwrnod trist iawn yn hanes y Waen Gynfi oedd colli Phil. Er hynny mae ei ddymuniad yn cael ei wireddu, sef cael ei gladdu yn ei gweryd, ac ar dir ei fferm, sef Penbryngwyn.
Ei gyfaill, Dafydd Morris

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILs
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Parhad DINORWIG



Gyda chryn ddiddordeb y bu imi ddarllen o dan adroddiad Cyngor Llanddeiniolen am y syniad o sut i ddatblygu ymhellach y cyswllt â Pharc Padarn ac ardal yr Allt Ddu. Syniad da mae yn debyg a'r gobaith mae'n debyg yw y buasai yn ffynnu.

Tybed faint o aelodau Cyngor Llanddeiniolen sydd yn rhoi trigolion yr ardal yn gyntaf. Mae yr iaith wedi mynd, dim ond yr iaith fain a glywir ar ffyrdd yr ardal bellach. Sôn am adfywio y pentref, anobeithiol y bydd modd gwneud hynny oherwydd y pethau sydd wedi cymryd lle yn yr ardal. Ar benwythnos yn unig mae yna dros drigain o gerbydau yn parcio yn yr Allt Ddu. Lle i faint mwy sydd am gael ei roi yno tybed? Os am gael mwy o bethau i'r ardal, beth am y ffyrdd? Mae gofyn cychwyn i'r capel i Ddeiniolen ar y Sul beth amser cyn amser cychwyn yr oedfa gan fod yn rhaid mynd yn ôl ac ymlaen lawer gwaith cyn cyrraedd top Gallt y Foel, ac wedyn yn yr haf, hefo'r tai sydd wedi eu troi yn llety i'r dringwyr, maent yn parcio rhwysut rhywsut ar yr allt. Ddaw dim bysiau i fyny yma ar y Sul.

Felly, Gyngor Llanddeiniolen, os adfywio y pentref buaswn yn gofyn yn garedig i chwi feddwl am y ffyrdd i'r ardal yn gyntaf a rhoi rhywfaint o sylw i'r trigolion, hynny ohonom sydd ar ôl ohonom.

Marwolaethau Bu imi grybwyll marwolaeth Phillip, a charwn ymddiheuro i'r teulu am gael ei enw yn anghywir yn yr Eco y mis diwethaf. Ei enw cywir ydoedd Gordon Phyllip Morris Jones ond yr oedd yn cael ei adnabod fel Phil Wil. Yr oedd Phil yn byw hefo'r plant ym Mhenbryngwyn, Rhos y Marchlyn. Un o'r mannau hyfrytaf yng Nghymru a golygfa fendigedig oddi yno ym misoedd yr haf.

Bu'r gwasanaeth claddu yn gyhoeddus yn Eglwys Crist Llandinorwig ar Fawrth 22ain o dan ofal y Parch Olaf Davies a daeth tyrfa fawr ynghyd i dalu'r deyrnged olaf iddo. Rhoddwyd teyrnged i Phil gan Dafydd Morris, Cefn Coch, yn yr Eglwys.

Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ar dir Penbryngwyn – lle yr

oedd Phil wedi ei drefnu ei hun yn ystod ei salwch creulon.

Dymunaf unwaith eto gydymdeimlo yn fawr â'r plant yn eu galar a'u hiraeth ar colled fawr o golli eu tad. 'Yn angof ni chaiff fod.'

Marwolaeth Jane yn Lerpwl

Bu imi hefyd sôn am farwolaeth Jane yn yr Eco y mis diwethaf. Gan nad oeddwn yn gwybod llawer am fywyd Jane yn Lerpwl, bu i Myfi Peris Evans roi yr hanes imi, felly geiriau Myfi ydyw y rhai isod:

Ar y dydd Sul, Chwefror 28ain, yn 80 mlwydd oed bu farw Jane Catherine Hughes (Jane, Groeslon Uchaf) yng nghartref gofal Woolton Manor yn Lerpwl. Wedi ei haddysg cynnar yn ysgol Dinorwig a phasio y Sgolarship, aeth Jane ymlaen i Ysgol Brynrefail. Yno roedd yn mwynhau y gwersi a'r chwaraeon – hi oedd goli dewr y tîm hoci.

Wedi cwrs yn y Coleg Normal Bangor dechreuodd Jane fel athrawes yn Lerpwl ac yno y bu trwy ei gyrfa. Trwy gydol y blynyddoedd roedd hi ac Emrys, ei gŵr, yn aelodau ffyddlon o'r Clwb Cymraeg yn Stryd Upper Parliament, ac yn perthyn i'r tîm tennis bwrdd ac i'r cwmni drama.

Wedi ymddeol yn gynnar yn 1990 cafodd y ddau gyfle i drafaelio trwy Ewrop a hefyd i America i ymweld â theulu yn Albany, talaith Efrog Newydd.

Yn ddiweddar bu'n rhaid gwerthu yr hen gartref gan fod ieuchyd Jane wedi gwaethgu.

Bu'r angladd yn Amlogfa Springwood yn Alerton, Lerpwl ar ddydd Gwener, Mawrth 18fed.

'Heddwch i'w llwch'.

Diolch i Myfi am hanes y ddiweddar Jane Catherine yn Lerpwl.


Cofion Annwyl at Mrs Megan Morris yng Nghartref Plas Garnedd, Llanberis.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS





FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com



HUW OWEN

PLASTRWR ADEILADWR LLEOL

22 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

Ebost- lisa.huw@btinternet.com

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

North Wales SIGNS

Gogledd Cymru **grid**

northwalessigns.com | 07766956673

Uned A9, Cibyn Ind Estate, Caernarfon




Arwyddion | Cerbydau | Digwyddiad



Mr Eifion Jones

Roedd Mr Eifion Jones yn ymddeol fel Pennaeth Ysgol Brynrefail ar ddiwedd Tymor y Pasg eleni. Yn un o 'hogia Brynrefs' go iawn, mae Mr Jones wedi bod yn Brifathro'r ysgol ers 18 mlynedd. Bydd ei ymddeoliad yn golled fawr i'r ysgol, ond rydym yn dymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol ac yn diolch yn fawr iawn iddo am flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i Ysgol Brynrefail. Bydd Mr Jones ar gael i helpu'r ysgol yn ystod Tymor yr Haf ond bydd Mr Arwyn Williams, sy'n Ddirprwy Bennaeth ar hyn o bryd, yn camu i'r swydd o fod yn Bennaeth Dros Dro, ac yna bydd yr ysgol yn hysbysebu am swydd Pennaeth parhaol ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.





Ysgol Gymuned Penisarwaen

Croeso – Rydym yn falch iawn o gael croesawu Pennaeth newydd i'r ysgol. Dechreuodd Mrs Catrin Roberts ar ei dyletswyddau yma ar Ebrill 18fed. Rydym yn sicr y bydd yn ymgartrefu'n fuan iawn yn ein plith yn yr ysgol a'r gymuned.

Croesawyd disgyblion newydd i'r ysgol yn ddiweddar. Mae Elis a Twm, Owi ac Alys wedi derbyn croeso mawr gan bawb ac wedi setlo'i lawr ar eu hunion.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Mawrth oedd Beca Gwyn Jones, Llanfairpwll, gyda rhif 28. Llongyfarchiadau!

Pen-blwydd Hapus – Dymuniadau gorau a phob lwc yn y dyfodol i Joe Thomas, 21 Bryn Tirion, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 18 oed ar Ebrill 14eg.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Helen Owen, 7 Brynhyfryd, sydd yn un o ddosbarthwyr ffyddlon yr Eco yn y pentref, ar ddatlu pen-blwydd arbennig ar Ebrill 21.

Ysgol Sul Bosra Y mis hwn eto anfonwn ein cofion anwylaf at Mr Evie Jones sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn cael triniaeth. Rydym yn falch o groesawu aelodau newydd, sef Loti Mai, Noa Jac ac Elain Haf atom. Mae'n hynod galonogol gweld yr aelodaeth yn cynyddu a'r plant mor ffyddlon. Diolchir i'r rhieni am eu hanogaeth.

Pwyllgor Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr yw: K. Parkinson, Rhos Bodrual a Rhian Williams, Clwt y Bont.

Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Mai 9fed, am 7.00 o'r gloch i drefnu Miri Mai a gynhelir nos Iau, Mai 19eg.

Llongyferchir Mrs Pat Larsen ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar a diolchir iddi am ei chyfraniadau gwerthfawr i holl bwyllgorau a gweithgareddau'r Pwyllgor Rheoli. Rydym yn dymuno'r gorau i Mr Llŷr Rees ar ei benodiad fel Pennaeth ar ddwy ysgol ym Môn a chroesewir Mrs Catrin Lloyd

Roberts o Lanberis fel Pennaeth newydd. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

Dymunir anfon ein cydymdeimlad llwyrat at Anne Elis a theulu Cilgeran, Bethel, o golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith, brawd a thaid balch. Bu cefnogaeth Geraint yn amhrisiadwy adeg adeiladu ein hysgol gymuned.

Rydym fel pwyllgor hefyd yn anfon ein cofion cynnes at Gareth, cyn Brifathro yr Ysgol Gymuned, ac yn falch o glywed ei fod yn gwella.

Eisteddfod Bentref 2016 Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Mai 9fed, am 7.30 yn y Neuadd Gymuned i ddewis testunau – felly dowch â'ch llyfrau os gwelwch yn dda.

Dymunir pob llwyddiant i 'Ensemble' y Genethod yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint.

Noson Lawen Nos Sadwrn, Ebrill 9fed, aeth llond bws i Pontio i Noson Lawen gyda Teulu'r Gibsons a ffrindiau – Siân, Emyr a Catrin, Trio, Annette Bryn Pari, cyn-ddisgyblion lleisiol Siân Gibson a John Eifion. Bu'n noson lawen dros ben a dymunir diolch i Olwen Meredydd am gofio amdanom ac i Liz am wneud yr holl drefniadau. Llwyddwyd i godi £145 tuag at yr Eisteddfod Bentref.

Mewn Noson Lawen arall bydd Magi Tudur yn cymryd rhan gyda'i chn afaelgar 'Y ddwy lôn'. Rydym fel Pwyllgor yn hynod falch o'i llwyddiant ac yn ei chofio yn cychwyn yn ifanc iawn ar lwyfan ein Eisteddfod ac yn dymuno pob llwyddiant iddi i'r dyfodol.

Anfonir ein cydymdeimlad llwyrat at Carys a Dafydd, Brynrefail, a'r genod yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith a thaid gofalus.

Dymunir bob bendith hefyd i Dion a Sarah Roberts a Mark Porter a Ffion wedi eu priodasau yn ddiweddar yng Nghaerdydd.

Siân Gwenllian

Ymgeisydd Etholiad Cymru

5 Mai 2016

siangwenllian@yahoo.com

01286 672510

07775 642202

 SianGwenllianArfon

 @siangwenfelin



Llais newydd i ARFON
Llais cryf i'r Gogledd

Hyrwyddwyd gan: Dafydd Meurig, Isfryn, Llanllechid, Gwynedd, LL57 3LB ar ran: Siân Gwenllian, Awelfryn, Pen y Bryn, Y Felinheli, LL56 4YQ.

Cofio Merêd: Dyn Ar Dân

Cofion Canrif O Ddyn, Ei Hud A'i Led

Fe gollodd y genedl gawr o ddyn a oedd ar dân dros Gymru a'r Gymraeg pan fu farw Meredydd 'Merêd' Evans ar yr 21ain o Chwefror 2015.

Nawr, yn Merêd: Dyn ar Dân fe drafodir y cyfraniad aruthrol a wnaeth Merêd i ddiwylliant a gwleidyddiaeth Cymru yn ogystal â'r dyn ei hun – y dyn annwyl, agos atoch, nad oedd dim yn bwysicach iddo na'i filltir sgwâr.

Mae amrywiaeth y cyfranwyr i'r gyfrol hon yn dyst i boblogrwydd Merêd ymhlith pobl o bob oed. Ceir ysgrifau gan nifer helaeth o awduron yn cynnwys Angharad Tomos, Gai Toms, Lyn Ebenezer a Cynog Dafis – pob un yn talu teyrnged i Merêd, i'w athrylith a'i ddycnwch, i'w weledigaeth a'i anwyldeb.

Ceir ysgrif hefyd gan y diweddar, yr Athro Gwyn Thomas, fu farw ar yr 13 o Ebrill eleni.

Ceir hefyd ynddi gerddi teyrnged, a cherdd olaf Merêd ei hun, ynghyd â llu o luniau o bob cyfnod o'i fywyd.


'Un o deyrngedau mwyaf y gyfrol hon yw'r un 'anysgrifenedig', sef bod awduron o bob degawd o oedran o'u hugeiniau i'w nawdegau wedi cyfrannu. Mae pob un, yn ei faes ei hun, ac yn ei arddull ei hun am gydnabod eu diolchgarwch i Merêd,' meddai Rocet Arwel Jones.

Yn y gyfrol cydnabyddir ei gyfraniad fel darlledwr, athronydd, perfformiwr, ymchwilydd, addysgwyr; i sefydlu'r papurau bro, y S4C, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ymhlith llu o bethau eraill. Gwnaeth gyfraniadau mawr ac arhosol i Gymru yn ystod bron i ganrif o fodolaeth.

'Roedd yn ymgyrchydd ym mhopeth roedd o'n wneud – o ennill ei fara menyf fel darlithydd a chynhyrchydd teledu i ymgyrchoedd addysg, darlledu a deddf iaith,' ychwanegodd Rocet Arwel.

Golygwyd y gyfrol gan Eluned Evans, merch Merêd, gyda chymorth Rocet Arwel Jones.

'Roedd yn ddyn y llwyfannau mawr cenedlaethol a rhyngwladol, ond eto doedd dim byd yn bwysicach iddo na'i filltir sgwâr. Aeth



â Thanygrisiau gydag o i Fangor, America a Chaerdydd ac yn y diwedd i Gwmystwyth, lle y bwriodd wreiddiau dyfnion,' meddai Rocet Arwel Jones.

Ganwyd Rocet Arwel Jones yn Rhos-y-bol, Ynys Môn a'i addysgu yng Nghlwb Ffermwyr Ifanc Rhos-y-bol, Ysgol Uwchradd Amlwch a Phrifysgol Cymru Aberystwyth. Mae eisoes wedi cyhoeddi dau lyfr taith doniol am ei brofiadau yn Africa a Kenya, cyfrol o gyfweiliadau gydag Emyr Humphreys a chyfrol o hanes llafar ar droad y mileniwm. Mae'n llais cyfarwydd ar Radio Cymru ac ar S4C ac wedi cyhoeddi cerddi ac ysgrifau yn Taliesin, Tu Chwith, Barn, Golwg, Y Traethodydd ac ar y we. Mae'n briod â Sharon ac yn dad i dri o fechgyn.

Bydd cyngerdd coffa Merêd yn dathlu'r traddodiad gwerin Cymraeg yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar ddydd Sul Mai y 1af ble cyflwynir copi i Eluned Evans.

Mae Merêd: Dyn ar Dân (£9.99, Y Lolfa) ar gael nawr.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

Tai Mewn Ardaloedd Gwledig



**Hwylusydd Tai Gwledig
Rural Housing Enabler**

Ydych chi mewn angen am dŷ sy'n addas i chi mewn pentref gwledig yn sir Gwynedd, Môn neu Conwy?

Ydy prisiau tai / diffyg cyfle i rentu yn eich digalonni?

A ydych angen addasu eich cartref ar gyfer eich

anghenion neu angen am dŷ addas newydd sy'n llai?

Ydych chi yn awyddus i godi eich ty eich hunan, ond arian a safle yn brin?

Oes gennych dŷ gwag neu dir ac yn awyddus i weld pobl leol yn cael cyfle?

Gall yr uchod fod yn gyffredin mewn sawl ardal wledig, a'r syndod ydy bod cymorth neu gyngor ar gael gan wasanaeth Hwylusydd Tai Gwledig. Mae Hwylusydd Tai Gwledig wedi cynorthwyo cartrefu dros 100 o drigolion lleol mewn tai newydd yn bennaf, dros y ddegawd ddiwethaf a gall eich:

• Cyngori chi ar opsiynau posib.

• Cyfeirio chi i gofrestru eich angen er mwyn cyfiawnhau cynllun bach lleol.

• Cyfeirio chi at asiant cymwys ynghylch addasiadau i'ch cartref.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Gwasanaeth ar **01286 889289**

Facebook - Hwylusydd-Tai-Gwledig-GOCymru-NWWales-Rural-Housing-Enabler

Twitter - @HTG_RHE

E-bost - arfon.hughes@grwpcyfein.org

Cefnogir gwasanaeth Hwylusydd Tai Gwledig gan siroedd Conwy, Gwynedd, Môn, Parc Eryri, cymdeithasau tai Grwp Cynefin, Cartrefi Conwy, Gogledd Cymru a CCGwynedd.



Tân.



Bu'n rhaid galw am gymorth y gwasanaeth tân o orsafoedd Llanberis, Caernarfon a Bangor i geisio rheoli tân yng nghreigiau'r Clegir a'r Bigil, ac a oedd mewn peryg o ymledu i ardal y Fachwen. Bu bron i ddeg ar hugain o swyddogion yn ceisio rheoli'r fflamau

oedd wedi cydio yn y gweundir sych, ac a fu'n llosgi'n ffyrnig o ganol pnawn hyd yn hwyr y nos. Roedd yr Eco ar fin mynd i'r wasg, a doedd dim cadarnhad wedi dod ynglŷn â'r modd y cychwynnodd y tân.

Y Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Mawrth oedd: £30: Mrs Rhian Ellis, Menog, 4 Pencae, Llanrug; £20: Mr Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant; £10: Mrs Mererid Llwyd, Cae Rhos.

Diolch. Dymuna Nancy a theulu'r diweddar Gwynedd Williams, Bro Waun, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion hael er cof tuag at Feddygfa Waunfawr. Diolch i'r Parch Gwenda Richards am ei gwasanaeth a'i geiriau caredig ar ddydd yr angladd ac i E.W. Pritchard am drefniadau gofalus a thrylwyr.

Diolch Dymuna Iris a Keith, 5 Tŷ Hen, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu pen-blwydd yn 60 mlwydd oed.

Diolch arbennig i Angharad am drefnu'r parti syrpreis ac i Osian am gadw'r gyfrinach. Cafwyd noson i'w chofio.

Sefydliad y Merched Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 7fed croesawodd y Llywydd y gŵr gwadd, sef John Christopher Williams, athro o Feddgelert. Roedd wedi bod yn dysgu mewn amryw o wledydd o amgylch y byd ac yn y blynyddoedd diwethaf bu'n gweithio yn Saudi Arabia fel athro ac arolygwr. Eglurodd yn drwyadl iawn am y gwahanol agweddau o fywyd yn y wlad, yn cynnwys y diwylliant, bwyd a chrefydd. Soniodd am y ffordd yr oedd merched yn cael eu trin yno – dim llawer o barch yn cael ei ddangos tuag atynt. Roeddem i gyd yn teimlo'n falch ein bod yn byw yng Nghymru. Diolchodd Catherine iddo am bnawn pleserus iawn.

Cyfarfod â ffrindiau Un pnawn braf yr wythnos diwethaf fe es am dro a chyfarfod ac Eflwyn a'i phriod, Elfyn, a oedd wedi dod o Fanceinion y bore hwnnw. Rhif deg Stad Bryn Golau oedd cartref Eflwyn a'i thad a'i mam cyn iddi briodi a mynd i fyw i Fanceinion, ychydig flynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Cawsom sgwrs am yr amser yn y Waun erstalwm, hithau yn gofyn am y cymdogion a'i chyfoedion yn y pentref. Roed yn braf cofio am ei dwy fodryb oedd yn byw yn Weirglodd Goch, a'r rhai fu'n gofalu'n garedig amdanynt. Efallai, yn ystod yr haf, y daw mwy o 'Beganifs' ar ymweliad â'u hen gynefin. Byddai yn braf eich gweld.

Bryn Fôn yn Nhafarn Waunfawr Cafwyd noson ddifyr iawn yn y dafarn ar Ebrill 9fed, gyda Bryn Fôn yn diddanu llond stafell o drigolion y pentref. Roedd cyd-ganu ar yr hen ffefrynnau fel 'Rebel Wicend' a Cheidwad y Goleudy'.

Un a fwynhaodd ei hun yn ofnadwy oedd Guto, Tregannedd. Mae'n gwybod holl ganeuon Bryn ac mi gafodd gyfle i rannu microffon efo'i arwr wrth ganu ambell gân.

Diolch yn fawr, Bryn, am roi cyfle iddo gyd-berfformio ac i Blaid Cymru am drefnu noson gymunedol hwyliog.

Pen-blwydd arbennig Llongyfarchiadau i Tesni Haf, Pen Rhiw, fu'n dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod mis Ebrill. Dathlu cyrraedd eu pen-blwydd yn un ar hugain

oed fu Eryl Marie a Fiona Ann yn ystod y mis. Llongyfarchiadau i chwi eich dwy hefyd. Dymunwn yn dda i'r tair ohonoch i'r dyfodol.

Priodas Dydd Sadwrn, Ebrill 16, bu priodas yn Eglwys y Waun gyda'r Parch Marcus Robinson yn gweinyddu a Catrin Gwyrfaei wrth yr organ. Elin Mair, merch o'r Bontnewydd oeddybriodferch, wyres i Mrs Nans Hughes a nith i Nia a Dylan Rhys, Eryri Wen, a Gareth Roberts o Gaernarfon oedd y priodfab. Roeddynt yn dymuno priodi yn Eglwys y Waen oherwydd cysylltiadau teuluol.

Yn ystod y seremoni arwyddo diddanwyd y gwahoddedigion gan Catrin ar y delyn a Huw Tudur, brawd Elin yn chwythu corn. Roedd Marek Rhys, cyfnither y briodferch yn un o'r morwynion. Dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc.

Profedigaeth Yn frawychus o sydyn yn ei chartref, Glaslyn, Stad Bro Waun, bu farw Mrs Jane Roberts, priod y diweddar John Elwyn Roberts. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion a fydd yn teimlo'r golled yn fawr.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys y Waun o dan arweiniad y Barchedig Gwenda Richards a Mrs Catherin Jones, yr organyddes, ac yn dilyn yn yr Amlosgfa ym Mangor. Roedd gwaelod y capel yn llawn, oedd yn dyst i'w phoblogrwydd.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Mai

1: Parch Glenys Jones

8: Parch Trefor Jones

15: Parch Gerallt Lloyd Evans

22: Oedfa deuluol o dan arweiniad Andrew Settatee

29: Mr Glyn Owen

Noder - Ni fydd aelodau yr Ysgol Sul yn cyfarfod ar benwythnos Gŵyl Fai – Mai 1af, nac ar Fai 29 a Mehefin 5 – bydd yn wyliau hanner tymor yr ysgol.

Yr Ysgol Feithrin. Dymuna pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch o galon am y gefnogaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar gyda'u gwahanol weithgareddau: i Ferched y Wawr am siec o £140; am gynnal dwy raffl yn nosweithiau Plaid Cymru yn y dafarn leol; i Brenda, Ty Ni am y tedi i'w enwi yn y pnawn helfa wyau Pasg; i Ann Croesor, Carys owen, Heulwen Jones ac Olwen Llidiart wen, am bob cymorth ymarferol. Diolch hefyd i'r rhieni a chyfeillion am eu cyfraniadau. Diolch arbennig i Anti Karen, Anti Kara, Anti Eryl ac eraill sydd wedi bod yn cynorthwyo yn yr Ysgol Feithrin.

Derbyniwyd yn ddiolchgar gyfraniadau gan fusnesau lleol tuag at ein raffl fawr a dynnwyd ar Noson Bryn Fon yn y dafarn: Taleb £30 gan Arvonja; Set o sgrwdreifars gan Weldpar; Taleb Tesco £20 gan Snowdonia Fire Protection; Tocyn sinema gan Pontio; Tocyn diwrnod i deulu gan Gelli Gyffwrdd; Tocyn diwrnod i deulu gan Gypsy Wood; Potel o siampenn gan Bryn Gloch; Taleb te pnawn i ddau gan Fron Goch, a Phlat Antur Waunfawr.

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



Hyn ac Arall

Dringo'r Wyddfa – faint o weithia ddwedwch y mae hynna wedi cael ei ddweud gan hwn ar arall?

O'r funud y gwelais yr hen fynydd (ac am yr Wyddfa y sonnir, gan ddefnyddio'r gair hen cyfystyr â bod yn annwyl, agos at rywun, hyd yn oed cyfaill da i'r awdur!) ie, o'r funud y gwelais... rhedodd yr hen nwyd fel tân gwyllt trwy fy ngwaed (dyna i chwi ddweud!) Nid oedd y glaw na'r niwl yn mennu dim arnaf, a phan welais hanner awgrym fod gobaith am ddiwrnod gweddol (fyddai'r un corun gwalltog, neu foel ohonom ni, yn ei mentro hi fel arall!) cyfeiriais fy nhraed tua 'Llwybr yr Wyddfa'.

Daw ail frawddeg yr ysgrif, sy efo'r teitl 'Dringo'r Wyddfa' at gyffes: Bùm yno lawer gwaith o'r blaen, ganol nos, brig hwyr a chanol dydd, ond bob tro yn un o gwmni.

Na! dydi petha heb fod run fath pan fydd rhai o'ch cwmpas i gynnal sgwrs, cyd-drafod, rhannu meddyliau efo nhw!

Ond fel y cyfaddef awdur yr ysgrif: ...penderfynais osgoi pob cydnabod er mwyn y profiad o ddringo wrthyf fy hun.

Nid yn unig gweld a wnaed: Prin yr oeddwn wrth glwyd y mynydd nag y clywn sŵn y corn yn y chwarel fawr... a dyna wrando ar y saethu a'r darnau cerrig yn rholio i lawr y poncydd. Dyna ergyd ar ôl ergyd... a'r sŵn chwyrn yn diasbedain o graig i graig nes oedd y cwbl yn gorws unsw. Sonnir gyda manylder am y daith, ble gwelwyd lliw gwyrdd coed yr Alltwen, yna'r lam o fyd clawdd a chlwyd a phost i ehangder y mynydd mawr. Sonnir bod ôl y tymhestloedd yn drwm ar yr hen lwybrau – y llif wedi eu hysgubo'n llwyr mewn ambell fan, a chwrs yr hen lwybr

a adwaenem gynt wedi newid megis ar gwr clogwyn coch yng ngolwg y Pass.

Y Parchedig John Dyfnallt Owen (1873-1956) piau'r geiriau uchod, ac fe'i ceir yn y gyfrol Ar y Tŵr. Abertawe: Llyfrfa'r Annibynwyr Cymraeg (1953).

Dyma'r gŵr a aned yn Llangwig, dyna enw hyfryd, ym Morgannwg a phan fu farw ei fam ac yntau ond crwtyn, fe ofalodd ei fam-gu a'i dad-cu amdano. Mi fu Dyfnallt yn Archdderwydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru, a hynny o'r flwyddyn 1954 hyd ei farwolaeth. Fo oedd enillydd y Goron am ei bryddest Y Greal Sanctaidd yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe (1907); cyhoeddodd beth wmbredd o lyfrau; bu'n feirniad mewn nifer helaeth o eisteddfodau; bu iddo weithio mewn pwll glo cyn troi i'r Weinidogaeth; gwasanaethodd fel caplan a hynny yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf; fo oedd (1927) Golygydd, dyna i chwi swydd drybeilig, Y Tyst, cylchgrawn Cymraeg ei iaith.

Roedd yn ysgrifennwr tan gamp a chyfrannai'n rheolaidd i'n cylchgronau Cymraeg – ie erthyglau gwerth eu darllen a'u trysori. Ond beth meddech chwi sydd â wnelo John Dyfnallt Owen â'n cilcyn ni o'r ddaear, chwedl Bardd Rhyd-ddu? Ie, dyna fo – Dyfnallt a fu'n preswyl, tra'n gwasanaethu rhwng 1902-1905 yn ein rhan ni o ddalgylch Eco'r Wyddfa, fel gweinidog yr Efengyl a hynny yn Neiniolen.

Dafydd Guto Ifan

Aur Glas

Ddiwedd mis Mai bydd arddangosfa i'w gweld yn Oriel y Mynydd Gwefru yn Llanberis sy'n dangos gwaith grwpiau celf yng Ngwynedd a Mon. Bydd ar agor hyd y 4ydd o fis Gorffennaf. Yn yr arddangosfa hon mae 50 o gelfyddydweithiau diweddar mewn amrywiaeth o gyfryngau ac arddulliau. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r celfyddydwaith wedi datblygu trwy nifer o ddulliau arbrofol, astudiaethau o elfennau sylfaenol Celf a Dylunio ac ymchwil am gelfyddyd hanesyddol a chyfoes; gan weithio mewn lleoliadau gwahanol, o Fethesda i Lanfairpwll, o Gaernarfon i Borthaethwy.

Mae'r artistiaid sy'n rhan o'r arddangosfa yn aelodau o grwpiau celf newydd a sefydledig, sydd i gyd yn cael eu harwain gan Mari Rose Pritchard, y tiwtor preswyl. Mae'r artistiaid sy'n arddangos o bob oedran ac yn dod o gefndiroedd gwahanol, gan ddod a'u profiadau bywyd a'u profiadau artistig i'w gwaith.

Mae 'Aur Glas', teitl yr arddangosfa hon, yn cyfeirio at Lechi Cymreig, a'u gwerth i'r gymuned leol ac yn benodol i Lanberis, ble mae'r arddangosfa hon.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk

Celwydd Golau

Roedd ffermwr o'r Waunfawr un tro mewn tipyn o benbleth gan fod un o'i wartheg yn sâl iawn. Yn ôl y sôn roedd y fuwch wedi llyncu esgid ac yn gorwedd ar y cae yn hanner marw. Er i'r ffermwr drïo popeth o fewn ei allu i gael gafael ar yr esgid o'i bol, ofer fu ei ymdrechion. Torchodd ei lawes hyd at ei ysgwydd gan wthio ei fraich i lawr ei gwddw, ond er bod blaenau ei fysedd bron yn cyffwrdd â'r esgid, methodd yn glir â'i chyrraedd. Yna gwthiodd ei ffon i lawr i ddyfnder ei stumog gan geisio bachu yr esgid â'r bagl, ond eto dim llwyddiant.

Erbyn hyn roedd y ffermwr druan yn ddigalon iawn gan fod y fuwch yn un o'i wartheg godro gorau. Buasai colli hon yn ergyd fawr iddo. Ar hyn daeth cymydog heibio ac, o weld y ffermwr yn eistedd ar y cae yn ei ddagrau, awgrymodd y cymydog fod ganddo syniad sut i ddatrys y broblem.

Gofynnodd i'r ffermwr fynd ar frys i'r tŷ i nôl dysglaid o saim gŵydd. Wedi i'r ffermwr ddychwelydd gyda'r ddysgl, tynnodd y cymydog ei drowsus a rhwbio peth o'r saim ar hyd ei goes. Yna dywedodd wrth y ffermwr am ddal ceg y fuwch yn llydan agored. Tra bod y ffermwr yn lledu'r geg, gwthiodd y cymydog ei goes i lawr gwddw'r fuwch nes bod ei droed yn eistedd yn daclus ar wadn yr esgid. Yna tynnodd ei goes yn araf o fol y fuwch gyda'r esgid yn dynn am ei droed. Ymhen eiliadau atgyfododd y fuwch hanner marw a chodi'n sigledig ar ei thraed ac, er mawr syndod i'r ffermwr dechreuodd bori'n hamddenol ar y cae.

Roedd y wên o ryddhad ar wyneb y ffermwr yn amlwg wrth iddo gofleidio yr arwr-achubwr. Wedi ffarwelio â'r ffermwr, aeth y cymydog trugarog ymlaen ar ei hynt yn union fel petai dim wedi digwydd (Hynny ydi, ar ôl rhoi ei drowsus yn ôl amdano).

Gwilym Morris Jones

Môn, Cymru a'r Bêl - Stori Osian Roberts

Nos Wener yma, ym Modffordd, bydd Y Lolfa yn lansio hunangofiant is-reolwr tîm pêl-droed Cymru, Osian Roberts. Mae'r gyfrol yn datgelu sut y llwyddodd Cymru i gyrraedd rowndiau terfynol Euro 2016, gan wr a wnaeth gymaint o'r gwaith tu ôl i'r llenni – Cymro balch nad yw wedi anghofio'i wreiddiau ac sydd wedi bod yn allweddol i roi Cymru ar fap pêl-droed y byd.

Yn 2011 cafodd ei benodi i weithio gyda charfan bêl-droed Cymru o dan Gary Speed. Yn y gyfrol mae Osian yn trafod yn onest ei falchder o gael gweithio gyda Gary, y golled enfawr pan fu farw a sut effeithiodd y drychineb honno arno ef a'r garfan. Erbyn hyn mae'n is-reolwr i Chris Coleman ac mae Osian yn datgelu cyfrinachau tu ôl i lwyddiant y tîm cenedlaethol. Ceir blas o'r gwaith caled, y dulliau hyfforddi proffesiynol a'r tactegau craff a deallus sydd wedi arwain at drawsnewid ffawd Cymru wrth iddynt ddringo i fyny rhestr detholion y byd ac ennill eu lle ym Mhencampwriaeth Ewrop. Ceir hefyd gipolwg tu ôl i'r llenni ar y gwersylloedd ymarfer a sawl hanesyn am y chwaraewyr.

Yn ogystal â bod yn hanfodol i bawb fydd yn dilyn Cymru yn yr Euros mae'r gyfrol yn cyfleu'r aberth a'r weledigaeth sy'n gyrru person i gyrraedd y brig yn ei faes. Ceir hefyd ddarlun o fagwraeth Osian ym Modffordd, ei yrfa fel chwaraewr yn ogystal â'i gyfnodau yn America lle y bwriodd ei brentisiaeth fel hyfforddwr.

Cyhoeddwyd Môn, Cymru a'r Bêl, Hunangofiant Osian Roberts (Y Lolfa, £9.99) ar nos Wener y cyntaf o Ebrill.

Un funud fach ...

ATEBION

Gan fod Etholiad y Cynulliad yr wythnos nesaf mae wynebau a lleisiau gwleidyddion yn amlwg ar sgrin y teledu a thonfeddi'r radio ar hyn o bryd. Cafwyd dadlau brwd, a mwy na digon o weiddi a ffraeo. Cafwyd ambell i raglen ddifyr, ond cafwyd hefyd raglenni diflas gyda rhai o'r cyfranwyr yn gwneud dim ond torri ar draws ei gilydd gan ladd unrhyw obaith am drafodaeth fuddiol. Ond gwaeth na hynny hyd yn oed oedd y rhaglenni a oedd yn boen i'w gwylïo am fod rhai o'r 'gwleidyddion' yn amlwg ar goll. Un peth ydi gweld cynrychiolydd plaid arbennig ar banel yn cael ei lorïo mewn dadl wedi iddo fo neu hi ddweud rhywbeth anghywir neu annoeth. Peth arall – a pheth poenus – yw gweld y cynrychiolydd hwnnw'n methu ateb yr un cwestiwn. Dros yr wythnosau diwethaf cafwyd enghreifftiau o hynny a wnaeth i mi gydymdeimlo â'r creaduriaid a oedd yn amlwg allan o'u dyfnder, nes i mi sylweddoli y gallai ambell un ohonynt gael eu hethol i'r Cynulliad yr wythnos nesaf!

Dydw i ddim yn eiddigeddus o'r gwleidyddion hyn. Dydw i ddim chwaith yn credu am un eiliad y gallwn wneud yn well na'r creaduriaid a welais yn cael trafferth ryfeddol i ddeall y cwestiynau a ofynnid iddynt, heb sôn am eu hateb. Mae'n amlwg fod y dasg o ganfod cynrychiolwyr cymwys wedi bod yn gryn broblem i ambell un o'r pleidiau. Yn niffyg atebion synhwyrol, y cyfan a gafwyd gan rai o'r bobl hyn oedd ailadrodd ystrydebau, chwydu ystadegau a dilyn ysgyfarnogod.

Does ond gobeithio nad ydym fel Cristnogion yn debyg i rai o'r gwleidyddion a welwyd yn osgoi neu'n gwrthod ateb y cwestiynau a ofynnwyd iddynt. Oherwydd mae gennym ateb i sawl cwestiwn y bydd pobl yn ei ofyn am Dduw a'i fyd a rheswm am y gobaith sydd gennym yn yr Arglwydd Iesu Grist. Nid yw hynny'n golygu fod yr holl atebion gennym. Nid yw chwaith yn golygu mai gennym ni ein hunain y mae'r atebion. Credu ydym ni fod atebion i'w cael yng Ngair Duw. Ac am ein bod yn credu hynny, yr ydym yn ceisio'r atebion ac yn chwilio am bob gwybodaeth a feddwn am Dduw a'i Fab Iesu yn Y Beibl. Dydi mudandod ddim yn gweddu i bobl Dduw pan fo pobl yn eu holi am Dduw. Gwnawn ein gorau i ateb cwestiynau ac i egluro pam ein bod yn credu yn ei ddaioni a'i gariad. Ond pan nad yw'r ateb gennym, neu pan fyddwn yn ofni nad yw Duw wedi dewis datguddio'r ateb i ni, gallwn gydnabod hynny yn onest yn hytrach na smalïo ein bod yn gwybod neu geisio troi'r stori neu osgoi'r cwestiwn.

JOHN PRITCHARD

Trin
Gwallt
Lynette

01286 669140
07771783516
Gwallt yn y Cartref

POSH
PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun,
nos Fawrth, Sed Ebrill 2016
Teyrnged:
Gyda thristwch unwaith eto eleni bu i ni golli aelod gweithgar iawn yn ei gymuned, Philip Jones. Cafwyd munud dawel, a chawsom atgof o'r cymeriad.

Er cof am Phil
I'w gelloedd nid oedd gwella, - rhy fuan
i'r fawnog aeth adra',
Yno, golud bro barha
o'r rhyddid o dd'allt gwreiddia.
Richard Llwyd Jones

Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cyngorwyr, Elfed Williams, Richard Ll. Jones, Gwilym Williams, Carolyn Roberts, R. Hefin Williams, Geraint Hughes, Rhian Evans a Idris Thomas.
Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones, a chyfeiriwyd yn annwyl iawn tuag at ambell rai yn ein mysg sydd ddim yn dda eu iechyd.
1. Ymddiheuriadau. Jane Pierce, Aled Green, Geraint Elis
2. Datgan buddiant. Dim
3. Cofnodion cyfarfod 1af Fawrth 2016.
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.
4. Materion o'r cofnodion

Biniau Halen - Derbyniwyd llythyr o Cyngor Gwynedd oedd yn cyfeirio at gadarnhad ar bris llenwi, trefniadau symud, archwilio a rhifo biniau. Gan ein bod eisoes yn disgwyl cael 2 fin newydd yn Rhiwlas, penderfynwyd ysgrifennu yn atgoffa Gwynedd o hyn, a gofyn am amserlen i'r gwaith rhifo ayyb.

Parc Padarn - Derbyniwyd ateb ynglŷn â warden dros dymor y gaeaf, ac, yn dilyn toriadau - ni fydd warden yn Parc Padarn ar benwythnosau yn rhydd y gaeaf.

Priffyrdd - Y lôn yn Trem Eilian, Brynrefail a'r arwydd yn Ninorwig bellach wedi eu cwblhau.

Parcio Anabl Bethel - Derbyniwyd llythyr a map yn gofyn i ni ddangos yn union pa un, serch hynny daeth cais yn gofyn am newid defnydd i barcio arhosfa byr dan ganllawiau bathodyn glas i ymwelwyr i'r safle bost. Y clerc i yrru i Gwynedd.

Lon Racca - Mae y cynghorydd wedi bod yn ceisio eto cael trin y ffordd yma. Ond oherwydd toriadau o 850,00 i gyllideb priffyrdd, derbyniwyd llythyr yn datgan nad oes dim y gall adran briffyrdd wneud ynglŷn â'r sefyllfa. Dywedwyd bod cytundeb wedi bod nôl yn Tachwedd 2014 lle, bryd hynny, roedd 13 canllaw a diffygion. Nid wyneb y lôn yn unig sydd yn ddiffygiol ond mae diffyg marciau, gordyfiant, gor yrru, ynghyd â phroblem dŵr yng ngwaelod Allt Sam a cherrig o walïau yn rhydd. Mae cwyno mawr fod ceir yn difrodi wrth drafaelio arni. Mae y lôn yma yn hollol bwysig oherwydd mae hi, i bob ystyr, yn cael ei defnyddio i fysiau hefyd. Awgrymu i'r clerc gysylltu â chwmni bysiau i gael eu barn hwy a Priffyrdd cyn cysylltu â Hywel

Williams.

CCG - Derbyniwyd Cynghorydd Sir lythyr yn dweud fod CCG yn chwilio am gynrychiolydd tenantiaid i'w tai. Nid oes neb yn siŵr pwy sydd ar y pwyllgor yma. Penderfynwyd gofyn i'r clerc gysylltu yn gofyn am restr gyflawn o gynrychiolwyr yr ardal sydd yn sefyll ar y pwyllgor yma, ac awgrymu iddynt eto i roi hysbyseb o'r fath mewn papurau bro.

5. Gohebiaeth a materion eraill

Llochesau Bws - Derbyniwyd llythyr gan y cyngor yn ein hysbysu fod angen arwydd rhybudd 'Mynedfa Isel' ar ddau loches yn Ninorwig, hyn yn dilyn asesiadau risg. Gofyn i'r cyngor am arwyddion addas.

Ceisiadau Eisteddfod Yr Urdd a'r Band - Yn dilyn cais trwy lythyr gan Fand Ieuenctid Deiniolen am nawdd ariannol tuag at gostau teithio i'r gystadlweth flynyddol penderfynwyd cyfrannu £100 tuag at gostau teithio i'r band ac i ysgolion/adrannau cynradd fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Sir Fflint, o dderbyn llythyr gan benaethiaid/arweinyddion i law y clerc.

Cyfarfod Hydro System - Roedd aelod wedi mynychu cyfarfod a drefnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chynllun Hydro System yn Llanberis. Amlygwyd bod dŵr yn cael ei ollwng yn ochor Waunfawr ac yn llyn Padarn a bod pryder fod y dŵr yn llygru.

Mae'r dŵr yn cael ei fonitro gan y cwmni ei hun, a Chyfoeth Naturiol Cymru yn astudio'r data. Awgrymwyd fod angen rhywun hollol annibynnol fuasai yn gallu gwneud prawf unrhyw dro heb rybudd. Clerc i yrru llythyr yn datgan hyn i Cyfoeth Naturiol Cymru.

O gwmpas y Bwrdd

Deiniolen - Dywedwyd fod y cynghorydd Elfed Williams wedi gorfod codi ymwybyddiaeth ynghylch â'r bocsys Coch yn ardal Deiniolen. Mae'n ymddangos fod gwastraff asbestos yn y bocsys, a gwastraff yn dal i gael ei gario iddynt er fod y gwaith gan CCG wedi ei gwblhau yn Neiniolen. Wedi cael sicrwydd fod CCG yn mynd i'w symud yn yr wythnosau nesaf.

Gofynnwyd beth oedd hanes y Chwareli a Statws Treftadaeth y Byd? Nid oes neb wedi clywed dim hyd yn hyn.

Gofynnwyd beth oedd y canlyniad i'r cais Tystysgrif Cyfreithloni ar y safle yn Fachwen. Gofynnwyd i'r clerc holi am fwy o wybodaeth am reol Tystysgrif Cyfreithloni, a gofyn a yw y safle yn dod oddi tan system treth y cyngor.

Rhiwlas - Angen sylw i lwybr o Cae Hel i fyny i Lôn Castell - amhosib cerdded ar ei draws dan fwd.

Baw Cŵn - Mae bin ychwanegol ar ei ffordd, ac maent yn cael eu gwagio yn wythnosol ar hyn o bryd, ond mae pryder am faint mae hyn i barhau gan fod y swyddog sydd yn gwneud y gwaith ar hyn o bryd yn ymddeol ym mis Medi.

Trafodwyd fod angen ysgrifennu at y cyngor yn gofyn a ydi pob bin yn cael ei wagio yn wythnosol, a beth ellir ei wneud ynglŷn â bagiau baw cŵn sydd yn cael eu hongian ar weiren bigog neu mewn walïau yn y pentrefi?

Bethel - Cysylltu â Cynllun Adnau Gwynedd a Môn ynglŷn â newid i'r cynllun gwreiddiol yn gofyn am ymateb yn sgil adroddiad newydd a pha ddylanwad y gaiff hyn ar y cynllun gwreiddiol



Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277



BOSCH Service
Car Service
www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
AVW BOSCH Car Service

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanrug
a Chwm y Glo

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo gynhaliwyd ar Mawrth 22

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Colin Jones o Gyngor Gwynedd ar faterion parcio oddi fewn ardal y Cyngor, ac fe amlinellodd ei waith a'r trafferthion mae'r Cyngor yn gael i ddelio â thrangwyddwyr parcio.

Tynnwyd ei sylw at y problemau parcio sydd ger y Sefydliad Coffa a'r Swyddfa Post yn Llanrug a bod y llinellau melyn wrth ymyl y cae chwarae yng Nghwm y Glo yn achosi i geir barcio tuag at y gyffordd. Eglurwyd hefyd fod goryrru ar y ffordd rhwng Llanrug a Waunfawr.

Trafodwyd y posibilrwydd o gael arwyddion, er enghraifft, yn dweud 'Gyrrwch yn Ofalus' wrth ddod i mewn i Llanrug.

Nodwyd fod Maes parcio sydd yng nghefn Ystorfa Llanrug yn eiddo i'r Cyngor Cymuned. Ar hyn o bryd mae angen gwaith arno i'w dacluso ac esboniwyd fod y Cyngor wedi cyflogi person i wneud y gwaith. Eglurwyd hefyd, er mai Maes Parcio tymor byr yw ei bwrpas, fod rhai cerbydau yn parcio arno am gyfnodau sylweddol. Nodwyd ymhellach fod y Cyngor yn awyddus i roi arwyddion o'r newydd i fyny i hysbysu defnyddwyr o hyn.

Diolchwyd i Mr Colin Jones am ddod i'r cyfarfod ac am ei gyfraniad defnyddiol. Cytunodd i ddilyn y materion a godwyd a chysylltu â'r Clerc gydag unrhyw wybodaeth bellach.

* Llwybr ger Glanffynnon ac Afon Rhos

Adroddwyd fod y llwybr a'r afon wedi cael eu clirio ac wedi tacluso llawer.

* Blwch Post ger Siop Premier

Adroddwyd fod y Blwch Post oedd yn amharu ar olwg wrth ddod allan o Ffordd Glan Moelyn wedi cael ei symud yn unol â chais y Cyngor.

* Y Fynwent

Adroddwyd fod y mwsogl ar lwybrau'r fynwent wedi ei glirio.

* Sedd Wag - Cynrychiolydd Cwm y Glo

Adroddwyd fod person wedi datgan diddordeb i gynrychioli Cwm y glo ar y Cyngor ond nad ydym wedi derbyn cais ffurfiol eto.

* Cae Chware Cwm y glo

Yn dilyn sylwadau gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chyflwr yr offer sglefrio penderfynwyd cael asesiad risg arno.

* Graffiti ar offer chwarae cae Nant y Glyn

Adroddwyd fod y Clerc a PCSO Ian Rooksby wedi cyfarfod ar y safle ac wedi glanhau'r graffiti oddi ar yr offer gyda glanhawr a ddefnyddir gan yr heddlu. Penderfynwyd pwrcasu cyfarpar i lanhau graffiti.

* Ysbwriel ar gae chwarae Nant y Glyn

Adroddwyd fod y biniau ar gae chwarae Nant y Glyn yn flêr ac wedi torri ac, am nad ydynt yn cael eu gwagio yn rheolaidd, fod ysbwriel yn cael ei chwythu ar hyd y cae.

Penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r sefyllfa.

* Ceisiadau Cynllunio



'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

a. Codi estyniad llawr cyntaf a phorth cefn yn Gwanwyn, Llanrug;

b. Codi to brig newydd dros estyniad to fflat presennol a chodi porth newydd yn Crug, Ffordd Minffordd, Llanrug

* Talu grantiau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Yn y gorffennol bu'r Cyngor yn rhoi grantiau i fudiadau sydd ddim yn cynnal gweithgareddau yn unigryw oddi fewn ffiniau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Oherwydd y natur economaidd sydd ohoni nawr, a goblygiadau arfaethedig fydd yn deillio o Her Gwynedd, penderfynwyd am y tro i beidio â gwneud hyn a throsglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Cyllid i ail edrych ar ein polisi.

* Dŵr ger Ganllwyd, Ffordd Glan Moelyn, Llanrug

Adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf am sefyllfa'r dŵr yn hel ger y fynedfa ac i'r Cyngor benderfynu cysylltu â Chyngor Gwynedd am arweiniad i oroesi'r broblem. Ond yn dilyn y cyfarfod fe sylweddolwyd, ar ôl glaw mawr, fod angen gwella'r rhan sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd i gysylltu â pherchennog y tŷ i gydnabod pryder y Cyngor Cymuned, a bod y Cyngor am wneud y gwaith, ac i gytuno i'w gyfarfod gyda'r contractwr i drafod y mater.

* Cofrestru Llwybrau

Penderfynwyd i gwblhau'r ffurflenni priodol ar gyfer cofrestru llwybrau oddi fewn i'r ardal.

* Y Fynwent

Adroddwyd bod y fynwent yn edrych yn daclus iawn ar hyn o bryd yn dilyn gwaith gan y contractwr yn tacluso ar gyfer Sul y Blodau.


* Biniau Halen

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd gyda phrisiau am gyflenwi'r biniau halen yn y dyfodol.

Penderfynwyd sicrhau fod y biniau yn y mannau mwyaf addas a'u bod mewn cyflwr da.

* Elusen Marconi

Derbyniwyd lythyr gan aelod o Elusen Cyfeillion Marconi yn hysbysu'r Cyngor o gyfarfod ar 13 o Ebrill 2016 i drefnu'r ffordd ymlaen i'r elusen. Rhoddwyd rhywfaint o gefndir yr elusen ac estynnwyd gwahoddiad i unrhyw un o'r Cyngor fynychu'r cyfarfod.



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Waunfawr

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr nos Fercher, 24 Chwefror am 7.15 yr hwyr yn Festri Capel y Waun, Waunfawr Presennol – Cadi Jones (Cadeirydd), Edgar Owen, Terry Parry, Erddin Llwyd, Iwan Davies, Eurig Wyn, Sali Burns, Delyth Jones, Llio Gwyn Jones, Shoned Rees Griffith (cofnodi)

Ymddiheuriadau – Mathew Gosett

Datganiad Buddiant - Dim

Derbyn Cofnodion 13.01.16 – Cadarnhawyd gofnodion cyfarfod 13.01.2016 fel rhai cywir. Mynegwyd gan y Cadeirydd fod angen ychwanegu derbyn dogfen electronig gan y Clerc yn amlinellu datblygiad newydd i'r Cynllun Snowdonia Pumped Hydro fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd rhai o'r newidiadau arfaethedig i leoliad finiau a maint tir comin yn ardal Chwael Du yn peri pryder. Penderfynodd y Cadeirydd ymdrin â'r ohebiaeth fel "mater o frys" gan fod angen ymateb erbyn Ionawr 15fed. Cytunwyd yn unfrydol.

Materion yn codi o'r Cofnodion

Materion Caeathro

1. Arwydd Llwybr Cyhoeddus i Caeathro Bach – wedi derbyn ymateb gan CG y bydd yr arwydd ac unrhyw waith gwelliannau ar ran o'r llwybr sy'n cysylltu â'r cae chwarae yn cael ei wneud. Nid oedd cadarnhad o'r amser.

2. Bylbiau – Dosbarthwyd bylbiau cennin Pedr i gael eu plannu.

3. Llywodraethwyr Ysgol Bontnewydd – bydd clerch y Llywodraethwyr yn anfon dyddiadur a rhaglen y flwyddyn ymlaen i'r Cyng HH.

4. Tacluso Pentref – Cyng HH yn trefnu ar ran Caeathro a Waunfawr.

Materion Waunfawr

1. Hysbysfwrdd – o flaen y Ganolfan wedi cael ei adnewyddu a'i osod yn ôl.

2. Biniaw Baw Ci – Disgwyl ymateb gan CG.

3. Tacluso Pentref – Cyng HH yn mynd i holi ar ran Caeathro a Waunfawr.

4. Maes Parcio ger Ael y Bryn a llwybr cefn Dôl Erddi, -Angen cysylltu â CCG i holi ynglŷn â creu mwy o le parcio yn y maes parcio ger Ael y Bryn. Nodwyd fod Swyddog o Gyngor Gwynedd yn dod i gyfarfod â'r Cyng CJ i drafod y broblem parcio ar hyd ffordd Ael y Bryn.

5. Ynni Adnewyddu – Rhaglen Tymor Hir

6. Les tir tu ôl i'r Ganolfan – Clerc wedi derbyn ymateb gan CG ac wedi ei anfon ymlaen at y Cyng ID a'r Cyng CJ. Angen cysylltu ymhellach â CG i drafod y posibilrwydd o greu trac beics.

7. Lôn Antur at Cwt Hers – cysylltu â CG i adnewyddu'r ffordd.

8. Hen Safle Whiteways – Adran Cynllunio CG yn mynd i anfon llythyr at y perchennog ynglŷn â chyflwr y safle.

Gerddi Bach – Rhan o'r safle wedi ei werthu bellach.

Adroddiadau

a. Lloches Bws - wal yn y maes parcio angen sylw, nodwyd fod graffiti eto ar wal tu mewn i'r lloches.

b. Y Fynwent - Giât wedi cael ei hadnewyddu ac yn ôl yn ei lle, gwaith taclus iawn. Angen ystyried prynu mwy o dir a'r gyfer y dyfodol.

c. Llwybrau Cyhoeddus – Dim i'w adrodd

ch. Toiledau Cyhoeddus – Clerc wedi anfon cais i CG i ddymchwel

yr adeilad.

Materion Cynllunio – Dim

Dyddiad cyfarfod nesaf – Cyfarfod Blynnyddol 18eg o Fai, 2016 yn Festri Eglwys y Waun.

Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Ltd ar gyfer Gorchymyn yn Rhoi Caniatad Datblygu ar gyfer Cynllun Storfa Bwmp Glyn Rhonwy.

Ymhellach i dderbyn gohebiaeth dyddiedig 9 Chwefror 2016 ynglŷn â'r mater uchod, bu i Gyngor Cymuned Waunfawr drefnu cyfarfod arbennig ar yr 2il o Fawrth i drafod y mater ymhellach.

Yn sgil hyn rydym yn amlinellu isod beth yw pryderon a sylwadau y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r datblygiad uchod, a gobeithio y bydd rhain yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn ystod y broses.

1. Y ffordd i'r safle o bentref Waunfawr - ffordd gul iawn, ddim yn addas ar gyfer lorïau a chroesffordd beryglus iawn i groesi'r ffordd i'r safle.

2. Lefel y traffig ychwanegol fydd ar hyd y ffordd anaddas yma, a'r effaith ar drigolion lleol.

3. Defnyddir rhan o'r ffordd gan blant sy'n mynd i'r ysgol, a bws yr ysgol Uwchradd. Bydd rhaid gofalu bod dim lorïau yn trafaelio i'r safle yn ystod yr amser pan fydd y plant yn mynd a dod adref.

4. Eiddo sydd wedi ei leoli ar ochr y ffordd i'r safle, mae rhan fwyaf o'r tai yn fythynnod traddodiadol a gall effaith yr holl lorïau trwm yn mynd heibio i'r tai eu difrodi.

5. Llwybrau cyhoeddus yn cael eu hailgyfeirio a'u cau – effaith ar drigolion lleol sy'n cerdded y llwybrau.

6. Ansawdd y dŵr o'r gorlif i Nant y Betws ac yna i'r Afon Gwyrfa. Nodwyd fod rhai trigolion y pentref yn defnyddio'r dŵr yma ar gyfer ei yfed, a beth fydd effaith hyn ar fywyd gwyllt yn Afon Gwyrfa?

7. Pam bod angen defnyddio cymaint o dir?

8. Gwyrriad i'r ffordd werdd, a dargyfeirio y ffordd i'r Maes Parcio newydd, mae'r ffordd yma yn darmac ar hyn o bryd, a fydd y ffordd newydd cystal?

9. Effaith i'r olygfa o ben Moel Eilio a mynyddoedd eraill o'n cwrpas sy'n bwysig iawn i bobl sy'n ymweld â'r ardal, ac yn ei werthfawrogi fel ac y mae.

10. Roedd teimladau y Cynghorwyr yn gryf iawn bod y ffordd i'r safle yma, ac yn wir y safle yn ran bwysig iawn o bentref Waunfawr. Mae'r ffordd sy'n arwain at y safle yn ran o gylch cerdded o amgylch y petrref sy'n bwysig iawn o ran cymdeithasu yn lleol a chwrdd â thrigolion pan yn mynd am dro. Y safle yng Nghfefn Du, mae nifer o drigolion yn hoff iawn o fynd yma am dro gan ei fod yn lle diogel a dim traffig. Yn ystod tymor y gaeaf pan fydd eira bydd teuluoedd a phlant yr ardal yn tyrru yma, ac wedi gwneud hyn ers blynnyddoedd. Bydd y datblygiad yma yn cael effaith ar lechyd a Lles corfforol a meddyliol y trigolion.

11. Rydym eisoes wedi nodi ein pryderon o ran y traffig ychwanegol i'r safle, ond rhaid cofio y bydd y traffig yma yn dod i'r pentref ar hyd y ffordd fawr drwy Caeathro neu o Bontrug? Rydym eisoes wedi mynegi ein pryderon i Gyngor Gwynedd ynglŷn â chyflwr y ffordd fawr yma, yn enwedig o gylchfan Caeathro i fyny i Bentref Waunfawr – rhan o'r A4087. Bydd yr holl lorïau yma yn draffig trwm ychwanegol i'r traffig dyddiol, ac yn bwysau ychwanegol a'r y ffordd. Oes angen cytundeb bod y ffordd yn cael ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr boddhaol yn ystod y datblygiad?

12. Credwn yn GRYF y dylai arolwg o'r ffordd a'r eiddo ar hyd y ffordd i'r safle o fewn ffin y Cyngor Cymuned gael ei wneud CYN cychwyn ar y gwaith, a bod cytundeb yn ei le bod unrhyw ddifrod yn cael ei gywiro gan y cwmni.



Ffenestri CADNANT Windows
 iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652



Gwasanaeth Gwres a Plymio
 safe
 Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
 Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
 Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Ar ben arall i'r lein

'Sgwn i pwy ddywedodd fod pysgota yn rhoi meddyginiaeth i'r enaid, mae'n ddigon gwir pan mae rhywun yn cael cyfle i chwipio'r enwair ar y dyfroedd neu yn eistedd i glymu rhyw bluen neu'i gilydd sydd â'u patrymau yn ymestyn yn ôl dros ddau can mlynedd. Mi fydd mwy ar hyn cyn y diwedd. Ond yn anffodus yn yr oes gyfoes fodern yma, neu dyna mae rhai yn trio egluro i mi ydi'r oes yma, does dim llawer o amser i bysgota, gan fod y ddyletswydd o warchod a ceisio datblygu'r Gymdeithas yn pwyso'n fwy a mwy ar ryddid yr ychydig ohonom sy'n ysgwyddo'r baich.

Un o'r problemau 'rydym yn ei wynebu yw'r newid cyson sydd yn y cyrff sydd i fod i reoli a datblygu pysgodfeydd Cymru. Dros fy amser fel ysgrifennydd mae cyfrifoldeb statudol gwarchodaeth wedi ei drosglwyddo o Fwrdd Afonydd Gwynedd i Awdurdod Datblygu Dyfroedd Cymru i Ddŵr Cymru i Fwrdd Afonydd Cenedlaethol i Asiantaeth yr Amgylchedd a heddiw Cyfoeth Naturiol Cymru. Os 'dwi'n cofio'n iawn rwyf wedi bod yn trin materion gydag wyth gwahanol brif swyddog pysgodfeydd. Be mae hyn i gyd wedi ei gyflawni, gyda'r holl gostau o ad-drefnu - wel dim llawer o ddim. Dyma enghraifft ardderchog i chwi:

Yn ddiweddar, drwy garedigrwydd Gwilym Hughes, Corwen, cefais gopi o ddyddiadur ei ddiweddar dad, sef Griff Hughes, Chwilog, a fu'n gipar ar afonydd ein hardal am flynyddoedd maith. 'Roedd Griff yn rhoi ei holl egni i warchod a gwella ein dyfroedd. Dyma be a gofnodwyd am y niferoedd o eog a brithyll môr a ddaliwyd ar y Seiont:

1966 - 467 eog a 5,100 o frithyll môr.

Tymor diwethaf, sef 2015 - 3 eog a 46 o frithyll môr.

Mae rhywbeth mawr wedi mynd o'i le dros y blynyddoedd a does neb yn cymryd cyfrifoldeb am ddim. Mae'r broblem i gyd, medda nhw, i wneud â llygredd yn y môr. Dim cyfeiriad o gwbl at lygredd yn ein afonydd, effaith datblygiadau, adeiladu gorsafoedd hydro, effaith coedwigaeth ac amaethyddiaeth. Ond un peth sydd heb ddigwydd, a hynny yw rhoi'r cyfrifoldeb o reoli a datblygu'r dyfroedd yn nwylo sefydliadau lleol. Wrth gwrs mae mwy o obaith i hyn ddigwydd nag i'r hen ful 'na o Fflint oedd Tai'r Felin yn canu amdano ennill y 'Grand National'. A'r prif reswm am hyn yw, maent yn gwybod yn iawn y buasai'r peth yn llwyddiant 'sgubol ac felly ddim yn adlewyrchu'n dda o gwbl ar y gwyddonwyr pwysig sy'n cynghori'r llywodraeth.

'Roedd pawb o fewn y byd pysgota yng Nghymru yn mawr edrych ymlaen wedi i'r llywodraeth yn Nghaerdydd gymryd gofalaeth

ar warchod ein pysgodfeydd drwy Gyfoeth Naturiol Cymru, wel dyna siom gawsom i gyd.

Fodd bynnag dyna ddigon o gwyno ar y materion gweinyddol a rheolaethol 'na! Sut mae pethau wedi bod dros y mis a fu, tybed? Wel. yn ystod Mawrth fe fu tipyn o lwyddiant am rhyw ychydig ddyddiau gyda'r brithyll, ond mewn difri nid yw'r tywydd wedi bod yn ffafriol cyn gweld mwy o dreidio'r glannau. Fe roddwyd cyflenwad da o frithyll brown a'r enfys yn Dywarchen rhyw bythefnos yn ôl, ond mae'n amlwg fod rhain i gyd yn teimlo'r oerfel ac yn cadw'n reit llonydd ar waelod y llyn. Ac fel yna fydd pethau nes i'r hin gynhesu rhywfaint. Ond fel diddordeb, bydd cyflenwad arall o frithyll hyd at rhyw 3 pwys yn mynd i mewn eto ymhen rhyw ddeg diwrnod, ac wedyn yn fisol hyd at ganol Medi.

Er bod nifer yr eogiaid a'r brithyll môr yn ddifrifol o isel, mawr yw'r disgwyl pob dechrau'r tymor yn y gobaith y bydd rhyw arwydd fod pethau yn troi am y gorau. Dechrau Mai yw'r amser i gadw llygaid ar byllau mawr y Seiont, sef Garnage, Engan, William Owen, Harri Parri, Tywod a Doctor. Dyma'r lleoliadau am wyniedyn cynnar. Os bydd rhywbeth wedi dod i'r bluen, yna mi fydd fy 'ffiol yn llawn' a chewch glywed digon mis nesaf.

Cadwch olwg ar Penllyn o 3 Mai ymlaen gan fod gwaith i fod i ddechrau ar lanhau'r gro neu'r gwllau claddu, yn y gobaith y bydd hyn yn rhoi rhyw hwb bach i wella magwrf a'r eog. Mi fydd gweld be sy'n mynd ymlaen yn reit ddiddorol. Gobeithio cael rhyw ychydig o luniau at mis nesaf.

'Rydym hefyd wedi cael addewid am arian i gynnal diwrnod hyfforddi 'sgota a saethu unwaith eto ar dir Gwesty'r Seiont Manor. Cawsom ddiwrnod hynod lwyddiannus y llynedd, ond mae eleni yn hollol ddibynnol ar gael mwy o gymorth i redeg pethau - os â diddordeb yna gadewch imi wybod ar 01248 670 666.

Yn rhifyn Ebrill fe gyfeiriais at y bluen 'Llwyd Corff Main' ar dull o'i chlymu. Yn ôl pob golwg 'roedd cryn ddiddordeb yn hyn - wel felly dyma un arall o hen batrymau'r fro - y patrwm a gefais ymysg casgliad enfawr o batrymau gefais yn 1993 gan y diweddar W.E. Roberts, Dolgellau. 'Roedd wedi nodi ar glawr y patrymau -'Patrymau plu ar gyfer Afonydd Seiont Gwyrfa i Llyfni. Copiais rhain oddiwrth D.T. Williams, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon yn 1930.

Dyma un o'r plu a dynnodd fy sylw - sef addasiad o'r hen ffefryn Coch y Bonddu sydd, wrth gwrs, wedi ei chofnodi yn cael ei defnyddio gan Robert Thomas, Pontrug cyn belled yn ôl â 1817.

Coch y Bonddu gyda adain - Y diwrnod cyntaf cynnes yn Mawrth, mi fydd Coch y Bonddu a chwilen betrisen ar y dŵr

Bachyn maint 14 neu 12 (Kamasan 175 neu Partridge Captain Hamilton fydda i'n ddefnyddio)
Tŷn y corff - dwy dro o dinsel lliw aur
Corff- Dau neu dri cwil paun brown heb dynnu'r blewiach
Asen- tri neu bedwar tro o dinsel tenau aur
Hacl - Pluen Frown gyda bôn ddu
Adain - Pluen o wddf ceiliog ffesant (fel yn y bluen Haul a Gwynt). Clymu bôn y bluen uwch ben yr hacl a'i thynnu tan bydd y bluen yn cael ei gwasgu at ei gilydd i wneud 'V'
Clymu'r pen â dropyn o farnish du i orffen y cwbl.

Dal heb glywed dim byd pendant o'r Llys Apeliadau ynglŷn â materion Padarn, gobeithio cawn fwy ar hyn mis nesaf.
A dyna ddiwedd arni unwaith eto.
Huw Price Hughes



LLANBERIS



Mai 29ain: 10yb Mr Dewi Jones: 5yh Cyfarfod Gweddi.

Diolch Dymuna Eifion, Sioned, Nia, Eilwen a Glenys ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn dilyn marwolaeth Gwyneth, gwraig, mam, nain, chwaer a ffrind arbennig i lawer. Diolch o galon am y cymorth a dderbyniwyd oddi wrth aelodau o'r teulu a'n ffrindiau.

Gair o ddiolch i Eglwys Sant Padarn am ein croesawu i'w bore coffi ddydd Llun Pasg; bore yn llawn bwrlwm a hwyl. Enillwyr y boneti Pasg oedd: 1af ac 2il Mrs Margaret Ford, 3ydd Mrs Betty Humphreys. Longyfarchiadau i bawb am gystadlu, a diolch i bawb am drefnu.

Gwraig, Mam a Nain arbennig. Byth yn angof.

Cylch Meithrin Llanberis



Bu plant Cylch Meithrin Llanberis a Nant Peris yn prysur yn creu addurniadau Pasg i arddangos yn siop TW Hair Llanberis. Ymwelodd Wayne â'r Cylch gyda wyau Pasg i ddiolch i'r plant am eu gwaith da. Diolch i TW Hair am eu cefnogaeth barhaus.

RHEDEG MYNYDD

Mae Rasys Nos Fawrth yn mynd o nerth i nerth, ac yn profi'n hynod boblogaidd gyda rhedwyr sydd am roi cynnig ar redeg mynydd am y tro cyntaf. Da gweld hefyd fod cymaint o ieuenctid yn cystadlu – ac yn mwynhau. Yn Ras Foel Lus o Ddwygyfylchi yn ystod mis Ebrill, daeth bron i gant a deg ar hugain i gystadlu; record i unrhyw ras yn y gyfres. A dau o fro'r "Eco" oedd ar y brig, gyda Mathew Roberts a Gareth Hughes yn gyntaf ac ail, ac yn torri hen record y cwrs.

Bu Mathew yn llwyddiannus hefyd yng nghymal cyntaf pencampwriaeth rhedeg mynydd Prydain yn Iwerddon, gan orffen yn nawfed allan o dros ddau gant o redwyr.

Disgwylir nifer mawr o redwyr i gystadlu ar Ras Moel Eilio hefyd yn ystod mis Mai gan ei bod yn rhan o gystadleuaeth rhyng-sirol Prydain. Ond mae'n agored i unrhyw unigolyn ei rhedeg, a disgwylir y bydd cynrychiolaeth leol dda.

Marathon Manceinion.

Llongyfarchiadau i bump o'r fro am gystadlu a chwblhau Marathon Manceinion yn gynharach y mis. Sam Green (Llanberis) dorrodd y deirawr, gyda Lee Davitt a Huw Owen (y ddau o Lanrug) o fewn munud i'w gilydd. Roedd Fiona Owen (chwaer Huw) a Rhian Thomas (y ddwy o Lanrug) hefyd o fewn munud i'w gilydd. Llongyfarchiadau i Hugh Morgan hefyd am gwblhau'r cwrs er nad oedd yn 'swyddogol' yn cystadlu!

Un arall o Lanrug, ond sydd bellach yn byw yn Nyffryn Nantlle yw Dewi Owen (brawd Huw a Fiona), a ddaeth yn gyntaf yn Ras 6 Llwybr Portmeirion.



Ymweliad Tommy Farr â Chaernarfon

Tybed faint o drigolion hynaf bro'r Eco sy'n cofio ymweliad y bocsiwr, Tommy Farr, â Chaernarfon yn 1951. Roedd Farr, y gŵr o Donypandy a chyn-bencampwr bocsiio pwysau trwm Prydain Fawr ac Ewrop yn 1937/38, yn enwog fel y Cymro arwrol a fu o fewn trwch blewyn ym mis Awst 1937 o drechu'r pencampwr byd, Joe Louis, mewn gornest hynod glos a chyffrous dros bymtheg rownd yn yr Yankee Stadiun, Efrog Newydd.

Union bedair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach, ar ddydd Mercher, Awst 29ain 1951, camodd Tommy Farr a'i gynorthwyr, Dave Edgar o Lundain, oddi ar y trên ar blatfform stesion Caernarfon. Roedd Farr, oedd erbyn hyn yn 38 mlwydd oed, yn aros y noson honno yng Ngwesty'r Royal (Gwesty'r Celt heddiw) ar gyfer gornest yn erbyn Americanwr o'r enw Steve McCall, oedd i'w chynnal ym Mangor y noson ganlynol. Yn rhyfedd iawn, roedd dyddiad yr ornest yn erbyn McCall, sef Awst 30ain 1951, yn gyfatebol â'r dyddiad pan gyfarfu Farr â Joe Louis ar Awst 30ain 1937.

Treuliodd Farr y noson yng Nghaernarfon yn ymlacio drwy chwarae snwcer gyda rhai o aelodau clwb Crosville y dref (Y Crosville Social Club), oedd yr adeg honno ar y safle lle mae archfarchnad Asda heddiw. Cafodd y bocsiwr groeso gwresog yn y clwb, a mwynhaodd hiwmor a chwmni'r Cofis yno yn fawr. Ar ddiwedd y gemau snwcer dychwelodd Farr yn ôl i'r gwesty i giniawa gyda dau o gewri eraill y sgwâr bocsiio, Bruce Woodcock ac Eddie Thomas, hwythau hefyd yn aros yn y Royal.

Roedd yr ornest yn erbyn Steve McCall a gynhaliwyd ar gae Ffordd Farrar, cartref clwb pêl-droed Dinas Bangor, wedi creu diddordeb aruthrol ymysg pobl o bob oedran, boed nhw'n ddilynwyr bocsiio ai peidio. Amcangyfrifwyd bod oddeutu 20,000 wedi llofu i'r ddinas y noson honno, gymaint oedd poblogrwydd yr arwr o dde Cymru. Oddeutu dwy awr cyn agor y gatiau gwelwyd rhes o bobl yn gynffon hir ymhell i lawr y stryd a thu hwnt, pob un yn awchu i weld 'Ffeit Farr yn Ffordd Farrar'.

Cyrhaeddodd Tommy Farr y sgwâr i groeso tywysogaidd y dorf,

ac ymatebodd eu harwr drwy wenu a chwifio ei freichiau yn uchel. Yna chwaraewyd 'Sosban Fach' dros y corn radio ac ymunodd y dorf yn y canu a barhaodd am rai munudau. Pan ddechreuwyd y frwydr roedd yr awyrgylch yn drydanol ac roedd yn amlwg o'r gloch gyntaf mai Farr oedd y meist'r. Roedd y cyn-bencampwr yn llawer rhy brofiadol a chryf i'w wrthwynebw'r, ac er bod yr Americanwr ddeng mlynedd yn iau, cafodd wers ac amser caled gan y Cymro. Encilio oedd hanes McCall yn y rhan fwyaf o'r rowndiau ac erbyn yr wythfed a'r nawfed rownd roedd golwg druenus ar ei wyneb gyda'i lygaid bron ar gau. Y gŵr o Donypandy oedd y buddugwr o bell ffordd a phan gododd y dyfarnwr, Ike Powell o Fargoed, ei fraich ar y diwedd, ymunodd Tommy Farr gyda'r dorf i ganu Hen Wlad fy Nhadau, gan roi diwedd glo bythgofiadwy i'r noson.

Hefyd, ar yr un cerdyn, curodd y pencampwr dosbarth welter Prydain Fawr a'r Ymerodraeth, Eddie Thomas o Ferthyr (oedd yn aros gyda Farr yng Nghaernarfon), yn erbyn Giel De Roode o'r Iseldiroedd, ar bwyntiau mewn gornest ddeg rownd.

Nid dyma oedd y tro cyntaf i'r gwron glew o Donypandy ymweld â gogledd Cymru. Mae'n wybyddus i Tommy Farr, pan yn fachgen ieuanc, deithio ar hyd arfordir y gogledd gyda chriw Bocsiio Bwth, yn derbyn her rhai o'r dewrion (neu'r gwirion) fyddai ddigon mentrus i gamu i'r cylch sgwâr gydag ef a'i gyd baffwyr.

Dechreuodd Farr ei yrfa yn 1926 pan oedd ond 13 mlwydd oed, cyn symud i'r pwysau canol ac yna'n ddiweddarach i'r pwysau trwm, a'i awr fawr yn erbyn Joe Louis. Yn ystod 1938/39 bu mewn gornestau yn erbyn llawer o baffwyr adnabyddus y cyfnod, fel Max Baer a James J. Braddock (Y Cinderella Man).

Yn 1940 cyhoeddodd Farr ei ymddeoliad o'r sgwâr bocsiio ond, oherwydd trafferthion ariannol, gwnaethpwyd ef yn fethdalwr a rhaid oedd iddo, ddeng mlynedd yn ddiweddarach ac yntau erbyn hyn yn 36 oed, ddychwelyd yn ôl i'r sgwâr, cyn ymddeol am yr eildro yn 1953. Bu farw Thomas George Farr ar ddydd Gŵyl Dewi 1986 yn Brighton, lle bu'n cadw tafarn, wythnos a hanner cyn ei ben-blwydd yn 73 mlwydd oed.

Freddie Welsh yn y Pafiliwn

Flynnyddoedd ynghynt, ymhell cyn ymweliad Tommy Farr â Chaernarfon, ymwelodd un arall o fawrion y byd bocsiio â'r dre. Ar nos Sadwrn, 15fed o Chwefror 1913, roedd oddeutu 1,200 o bobl wedi ymgynnull yn y Pafiliwn i wyluo'r anfarwol Freddie Welsh yn arddangos ei sgiliau mewn gornestau yn erbyn gwahanol baffwyr eraill. Roedd Welsh ar y pryd yn bencampwr Prydain Fawr ac Ewrop, wedi ennill ei deitlau ym 1909 drwy guro Johnny Summers a Henri Piet, ac wedyn deitl yr Ymerodraeth yn 1912 drwy drechu Hughie Mehegan o Awstralia. Yn ddiweddarach enillodd ddau wregys Lord Lonsdale drwy drechu Matt Wells a Jim Driscoll, un o'r gwregysau hyn am oes, ac ym mis Gorffennaf 1914 daeth Welsh yn bencampwr y byd drwy drechu Willie Ritchie ar bwyntiau yn Llundain.

Cyrhaeddodd Freddie Welsh o Bontypridd, (neu Frederick Hall Thomas - ei enw iawn) y sgwâr yn y Pafiliwn i fonllef o gymeradwyaeth ac, i fawr foddhad y dorf, dangosodd drwy eu dal yn uchel y ddau wregys pencampwriaeth Lonsdale oedd yn ei feddiant. Bu'n diddori'r dorf wedyn drwy arddangos rhai o'i sgiliau a'i ddulliau ymarfer, cyn symud ymlaen i baffio cyfres o rowndiau dau funud yn erbyn tri o focswyr eraill.

Roedd yn amlwg i bawb yn y dorf, er ymdrechion glew ei wrthwynebwyr, Joey Smith, Charles Milestone a Munro Grainger, fod y pencampwr o Bontypridd o safon llawer uwch ac yn llawer rhy gyflym i'w sialenswyr wrth iddo ddawnsio'n ysgafndroed o amgylch y sgwâr. Penderfyniad hawdd i'r dyfarnwr, Mr R. Edwards o Landudno, oedd codi braich y Cymro i'r awyr ar ddiwedd y tair gornest. Credir mai gŵr o Gaernarfon o'r enw Mr Hanlon oedd yr amserwr y noson honno.

Yn ystod ei ymweliad â'r dref bu Freddie Welsh yn ymarfer dros yr Aber ac hefyd yn teithio mewn cerbyd o gwmpas yr ardal, yn edmygu rhai o olygfeydd godidog y wlad o gwmpas. Dywedodd ar y pryd ei fod yn bwriadu ail ymwelid â Chaernarfon yn y dyfodol agos, a hynny ar gyfer sesiynau ymarfer.

Derbyniodd Freddie Thomas yr enw Welsh, drwy flerwch y cyflwynydd yn ei ornest broffesiynol gyntaf yn Philadelphia. Wrth annerch y dorf, anghofiodd y cyflwynydd ei enw ond, o glywed acen gref y Cymro, cyflwynodd ef wedyn fel Freddie Welsh.

Bu farw Freddie Welsh yn Efrog Newydd ar 29ain o fis Gorffennaf 1927 yn ddyn tlawd iawn ac yntau ond yn 41 mlwydd oed. Gwilym Morris Jones, Bontnewydd

Triathlon

Cynhaliwyd dwy driathlon dros yr wythnosau diwethaf, er mai dau gymal yn unig a gwblhawyd ym Mhwillheli oherwydd y gwyntoedd cryf. Nofio a rhedeg yn unig fu'n rhaid i'r cystdleuwyr ymdopi â hwy: roedd y gwynt yn ei gwneud yn rhy beryglus i fentro niheroedd mawr ar feiciau'n yr ardal. Daeth Phil Lynes (Llanrug) yn ail yn y gystadleuaeth, 3 eiliad yn unig tu ôl i'r enillydd! O fewn wythnos roedd yn cystadlu eto yn Harlech, a daeth yn ddegfed.

GLANTRAETH 3 LLANBERIS 0

Er bod noson lawn o gemau cynghrair yr un noson, denwyd torf foddhaol draw i Nantporth ar gyfer rownd derfynol Cwpan Cookson.

Llanberis ddechreuodd gryfaf gyda dibyniaeth o’r bêl-hir i Gareth Jones ymosod. Daeth cyfle wedi 6 munud, ond gyda gôl wag o’i flaen ni rwydodd o ongl lem. Roedd Nidian Huws yn danfon sawl croesiad da i’r blwch ond diffyg taldra Llanberis yn y linell flaen i greu bygythiad yn amlwg.

Yr oedd patrwm y gêm wedi’i sefydlu. Llanberis yn ymosod a Glantraeth, mwy pwylllog, yn gwrth-ymosod.

Wedi chwarter awr daeth y gôl gyntaf. Ac un fler oedd hi. Cic gornel o’r dde i Glantraeth. Cefnwyr Llanberis yn gadael i’r bêl adlamu a gorchwyl hawdd i Gerwyn Jones benio i’r rhwyd o 5 llath.

Yn ôl daeth Llanberis â sawl hanner cyfle. Denodd Nidian Hughes arbediad da gan y golwr gyda chic rydd o 30 llath. Dylai Gareth Jones a Gethin Wakeham wedi gwneud yn well o gyfleon cyn yr egwyl.

Dilyn Y Wê

Mae nifer ohonoch erbyn hyn yn mynychu sawl gwefan leol fel un yr Eco, Llanberis Ddoe a Heddiw e.e. Un y byddaf i’n ddilyn am resymau naturiol yw gwefan Clwb Hanes Rachub. Yn ddiweddar bu cryn sylw ar chwaraeon yr ardal honno, yn enwedig timau Llechid Celts a Bethesda Celts.

Ymysg y cyfraniadau, dois ar draws cofnod o gêm rownd gyntaf Cwpan Alves rhwng Llechid a Bethel. Roedd yr adroddiad yn rhifyn Chwefror 4ydd, 1949 o’r North Wales Chronicle. Ar y pryd roedd y ddau glwb yn aelodau o Gynghrair Bangor a’r Cylch. Braidd yn unochrog oedd hi gyda Llechid yn ennill o 11-4. Rhestrwyd y sgorwyr, ond difriol oedd awdur yr erthygl o berfformiad tîm Bethel.

“The only player of note for the visitors was Owen and the centre half.” Ni enwir hwnnw. Aed ymlaen i ddweud y buasai Llechid yn cyfarfod enillwyr y gêm ail-chwarae rhwng Llanberis a Penrhyn Quarry Reserves.

Es ymlaen gydag ymchwil trwy ddefnydd o lyfr gwyh Arwel Jones o hanes y Darans. A diddorol yw’r stori. Yn rhyfedd mae cyfeiriad yn y llyfr o’r amgylchiad.

Roedd tîm cyntaf Llanberis yn llwyddiannus yr adeg hynny, gyda nifer o chwaraewyr ‘o tu allan’. Roeddent yn chwarae yn ail adran Cynghrair Cymru (Gogledd). Nid felly yr ail dîm o fechgyn lleol. Prin roeddent yn ennill gêm.

Roedd moral y tîm yn isel iawn, chwedl Arwel. I geisio codi calon yr hogia trefnodd Pwyllgor Merched Clwb Llanberis ginio i hogia’r ddau dîm yn Idan House. Aeth y tîm cyntaf ymlaen o nerth i nerth ac ennill Pencampwriaeth y Gynghrair gyda Emlyn Davies yn serennu.

Nid felly yr ail dîm, gan orffen yn ail o’r gwaelod yn eu hadran, a Llechid yn bencampwyr.

A hanes y gêm gwpan yn erbyn Llechid? Er i Lanberis drechu’r chwarelwyr, ni chwaraewyd y gêm. Nid oedd Llanberis yn gallu codi tîm. Sawl un o’r chwaraewyr wedi dioddef anafiadau, yn ôl Arwel. Tebyg iawn!

Oes mae storïau diddorol – a doniol – ar y gwefannau.

Daeth ail gôl i Lantraeth wedi 51 munud. Shaun Lock yn cael digon o le ar y chwith a’i groesiad yn cael ei phenio i’r rhwyd gan yr eilydd Lundrum. Gôl dda hon.

Cafodd Glantraeth ddau gyfle da yn y munudau nesaf ond Louis Williams yn gryf yn gôl Llanberis.

Ar yr awr, dau ddigwyddiad allai fod wedi newid cwrs y gêm. Yn gyntaf, arbediad gwyh gan Ben Heald o ymdrech Rhys Parry. Yna, cic gosb amlwg i Lanberis gyda llawiad amddiffynnwr Glantraeth. Na, meddai’r hamddenol Mr. Bridges.

Gyda Llanberis yn gwthio ymlaen ond heb allu darganfod y bas olaf dreiddiol, seliwyd y gêm yn y 77 munud. Eto Glantraeth yn torri ar y chwith a Craig Roberts yn rhwydo o 10 llath.

Daeth un cyfle da i Steff Jones cyn y diwedd ond noson seithug oedd hi fod i Lanberis.

Dim cwpan i’r Darans felly a rhaid canolbwyntio rwan ar y llif o gemau cynghrair bob yn ail noson bron. Tîm ifanc yw Llanberis ac mae’r diffyg profiad yn amlygu ei hun ar brydiau ond mewn tymor neu ddau byddant yn dîm i’w parchu.

Tymor Criced Ar Gychwyn

Fel arfer rwyf yn llawn brwdfrydedd yr amser yma o’r tymor, ond cymysglyd iawn yw’r teimladau eleni. Efallai bod rhai ohonoch wedi darllen am y difrod â wnaed gan rywun i’r ‘sgwâr criced’ yn Nh? Newydd. Tywalltwyd disel coch ar hyd y lleiniau, a gobeithir cyflawni y 22 o gemau cynghrair a dim ond pedwar llain ar gael. Gobeithiwn am y gorau.

Newyddion da yw bod criced yn dychwelyd i Gaernarfon. Gosodwyd mat ar faes Coed Helen. Mae’r bechgyn dan arweiniad dau o hogia’r dyffryn, Andre Lambrecht ac Iwan Roberts, yn frwdfrydig iawn ac yn edrych ymlaen i gystadlu yng Nghynghrair y Gogledd. Mae croeso i unrhyw un ymuno â’r newydd ddyfodiad. Pob lwc iddynt.

Rwyf yn fwy hyderus ynglŷn â chlwb Morgannwg eleni. Rwyf i, fel sawl un arall, wedi dyheu am weld naws mwy Cymreig i’r clwb – yn enwedig cynnwys mwy o chwaraewyr ‘cartref’. Mae arwyddion o hyn, gyda’r ddau ogleddwr David Lloyd a Dewi Penrhyn-Jones yng ngharfan y tîm cyntaf. Mae cryn hyder yng ngallu y troellwr Adam Salter o Sir Benfro hefyd. Dyma’r dyfodol. Ond, i mi yr hyn sy’n galonogol yw cyfansoddiad gweinyddwyr y sir. Tri Cymro fydd yn arwain y gad eleni – Alan Jones (Llywydd), Huw Morris (Prif Weithredwr) a Robert Croft (Prif hyfforddwr). A dau ohonynt yn Gymru Cymraeg hefyd. Digon o gyfle i gyfleu neges gweledigaeth y sir ar y cyfryngau Cymreig felly. Gyda diddymu rhan helaeth o’u dyledion mae strwythr a sylfaen ariannol derbyniol felly draw ar y Swalec.

Gyda llaw, i chwi ddilynwyr Morgannwg ym Mro’r Eco. Gallwch wylïo pob un o gemau Morgannwg yn y Bencampwriaeth a chwaraeir yng Nghaerdydd yn fyw ar wefan www.glamorgancricket.com.

Digon o haul, gobeithio.

LLONGYFARCHIADAU

Ifan Emlyn Jones (Llanrug) oedd capten tîm Academi (dan 19) Dinas Bangor eleni. Am y tro cyntaf hwy yw Pencampwyr Adran y Gogledd. Yn y Gynghrair mae timau academi y clybiau sy’n chwarae yng Nghynghrair Cymru gydag ambell glwb arall ,fel Derwyddon Cefn a’r Fflint. Hefyd yn aelodau o’r garfan roedd Iolo Hughes, Cai Hywel a Gwion John (Bethel), a Dylan Thomas (Llanrug). Rydym wedi cyfeirio at sawl un o’r rhain yng nghyswllt llwyddiannau Ysgol Brynrefail a rhai ohonynt ar lefel rhyngwladol. Y cam nesaf ymlaen ydy camu i’r tîm cyntaf a chwarae yn y gynghrair Genedlaethol. Mae rhai ohonynt eisoes wedi gwneud hynny ac eraill wedi cyrraedd y fainc.

Chwaraeon

Gwregysau Llwyddiant



Llwyddiant mewn Gala Nofio



Cynhaliwyd gala nofio yn Llandudno yn ddiweddar. Bu sawl plentyn o Lanrug yn cystadlu sef: Alaw Swyn, Emily Williams, Beca Parry, Catrin Beech a bu Dion Peris yn llwyddiannus tu hwnt yn ennill ymhob cystadleuath a chafodd wobr arbennig am y mwyaf o bwyntiau.



Bu'n gyfnod llwyddiannus iawn i Glwb Sakura Karate Caernarfon. Mae ystod eang o oedranau yn mynychu'r clwb o ddechreuwr oed cynradd drwodd i oedolion 18+. Mae'n glwb sydd ar gynydd ac o hyd yn barod i groesawu rhai sydd am fentro i'r gamp. Am fwy o fanylion gellir cysylltu ag Avril Williams ar yr e-bost avrilwilliams1@icloud.com.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd Pencampwriaeth Prydain draw yn Blackpool. I glwb cymharol 'newydd' ac o ardal wledig, daeth aelodau'r clwb â phedair medal gartref – dwy arian a dwy efydd. Yn yr oedran -11 cipiodd Elin Lloyd o'r Groeslon fedal arian i'r

rhai o safon gwregysau gwyrdd i biws. Yn yr un oedran roedd medal efydd i Serenna Williams o'r Waunfawr yn nosbarth gwregysau brown a du.

Yn yr oedran 11-14 roedd medal arian i Rhydian Parry o Lanberis i lefel gwregys ddu. I goroni'r llwyddiant, eto ar lefel gwregys du, caed medal efydd i'w chwaer Mared Parry. Teulu dawnus yn amlwg. Gobeithio nad yw'r dodrefn yn dioddef pan maent yn ymarfer gartref!

Tipyn o gamp i'r clwb, sy'n amlwg yn gosod safonau uchel o ymroddiad, disgyblaeth a pherfformiad. Beth am fentro?